



# Addysg Heddwch

Comisiynwyd gan Academi Heddwch Cymru

Paratowyd gan Dr Sarah Morse

Medi 2024

Academi Heddwch Cymru

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ..... 4

Talfyriadau ..... 5

Argymhellion ..... 6

Academi Heddwch Cymru ..... 6

Cynllun Ysgolion Heddwch ..... 6

Cwricwlwm a Chymwysterau ..... 7

Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ..... 8

Llywodraeth ..... 9

Cyflwyniad ..... 10

Adnoddau a Dull Gweithredu ..... 11

Adolygiad Llenyddiaeth ..... 11

Dadansoddiad o gyd-destun polisi yng Nghymru a throsolwg o bolisïau addysg ..... 11

Ymchwil Ansoddol ..... 11

Cynnal cyfweliadau ..... 12

Defnyddio data cyfweld ..... 12

Beth yw heddwch? ..... 13

Beth yw addysg heddwch? ..... 15

Manteision addysg heddwch ar gyfer cymunedau dysgu ..... 17

Addysg Heddwch a Safbwyntiau Byd-eang ..... 18

Diffiniad ..... 19

Addysg Heddwch mewn cyd-destun Cymreig ..... 21

Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru ..... 23

Perthnasedd o fewn y Cwricwlwm i Gymru ..... 26

Cwmpas ..... 28

Effaith ..... 30

Adolygu'r cyfleoedd a'r heriau: ..... 31

Profiad Ysgol Heddwch Ysgol Gynradd ..... 33

Addysg Uwchradd - Cymwysterau Gwneud-i-Gymru ..... 36

Cyfres Sgiliau: Sgiliau Byw ..... 38

Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a Dysgu Proffesiynol ... 39
Perthnasoedd rhyngbersonol, empathi a llesiant emosiynol ... 40
Heriau Posibl ... 42
Ymgysylltu a Dysgu a Proffesiynol ... 43
Addysg Bellach ... 44
Addysg Uwch ... 47
Dysgu Gydol Oes - Addysg Oedolion ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ... 54
Addysg Oedolion yng Nghymru ... 57
Cynllun Peilot Addysg Heddwch Cwricwlwm Dinasyddion ... 58
Datblygiadau eraill y dyfodol ... 59
Casgliad ... 62
Llyfryddiaeth ... 63

## Crynodeb Gweithredol

Mae gan Academi Heddwch Cymru, fel sefydliad heddwch cenedlaethol Cymru, gryn botensial i hyrwyddo mentrau addysg heddwch. Gan wneud yn fawr o'i henw da, ei chysylltiadau a'i phŵer cynnull, gall wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o addysg heddwch ymhlith llunwyr polisi a dylanwadwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried diffiniadau o addysg heddwch, datblygiadau o fewn y maes ac yn dadansoddi mentrau addysg heddwch yng Nghymru. Mae hefyd yn edrych ar y cyfleoedd posibl i ddatblygu addysg heddwch, ac yn ystyried esiamplau rhyngwladol sy'n cynnig modelau posibl y gellid eu mabwysiadu.

At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir addysg heddwch fel dull addysgol trawsgwricwlaidd sydd â'r nod o hyrwyddo diwylliant a dealltwriaeth gyfannol o heddwch drwy gyflwyno gwybodaeth, sgiliau, agweddau, a gwerthoedd sy'n angenrheidiol er mwyn atal gwrthdaro a chreu cymdeithas heddychlon. Mae hefyd yn ddull gweithredu addas i'w ddilyn o fewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), sydd â'r nod o roi'r wybodaeth, sgiliau, gwerthoedd a gallu i ddysgwyr o bob oed fynd i'r afael â'r heriau byd-eang cydgysylltiedig sy'n ein hwynebu, megis newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, ac anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae'r diwygiadau diweddar yn y sector addysg yng Nghymru, ac ymrwymiad y genedl i gynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol yn darparu cyfleoedd i addysg heddwch adeiladu ar y sylfeini sydd wedi bod yn rhan o'r dull o gyflwyno addysg yng Nghymru ers bron i genhedlaeth.

Os yw ADCDF yn cael ei ddatblygu ymhellach i gwmpasu dull gweithredu mwy cyfannol, mae potensial i ddatblygu enw da Cymru ymhellach fel arweinydd ym maes datblygu cynaliadwy ac adeiladu ar yr ymrwymiadau a wnaed yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae gan Gymru hanes hir o fod yn rhan o feithrin a hyrwyddo heddwch, a chan ddefnyddio'r traddodiad hwn i lywio ac ymgorffori dirnadaeth foesegol a dinasyddiaeth fyd-eang ymgysylltiedig yn ei system addysg drwyddi draw ar bob lefel, mae cyfle i Gymru gyfrannu at ddatblygu cymwyseddau yn ei dinasyddion sy'n cefnogi heddwch, datrys gwrthdaro a chymunedau cydlynus gartref a thramor, ac i gryfhau'r agwedd hon ar enw da Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

## Talfyriadau

| | |
|---|---|
| MDaPh | Maes Dysgu a Phrofiad |
| CADY | Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil |
| ADC | Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy |
| ADCDF | Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang |
| ABC | Addysg Blynyddoedd Cynnar |
| AB | Addysg Bellach |
| ADF | Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang |
| AU | Addysg Uwch |
| HEFCW | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| AHD | Addysg Hawliau Dynol |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| CA | Corff Anllywodraethol |
| AHO | Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol |
| ACRh | Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
| CGM | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg |
| NDC | Nodau Datblygu Cynaliadwy |
| YSD | Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu |
| WCIA | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru |

# Argymhellion

## Academi Heddwch Cymru

1. Gall Academi Heddwch Cymru ddod yn eiriolwr pwerus dros addysg heddwch. Fel sefydliad heddwch cenedlaethol Cymru, mae gan yr academi lwyfan i rannu manteision ac effaith dulliau gweithredu addysg heddwch. Mae ei henw da, ei chysylltiadau a'i phŵer cynnull yn asedau. Gellid defnyddio'r grŵp trawsbleidiol ar heddwch a chymod i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth wleidyddol o addysg heddwch o fewn y Senedd a gyda llunwyr polisi eraill, ac i feithrin cynghreiriau gyda sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn ADCDF.

2. Byddai'n fanteisiol i Academi Heddwch Cymru a'r Cynllun Ysgolion Heddwch ffurfioli eu cysylltiad sydd eisoes yn bodoli. Mae gan y Cynllun Ysgolion Heddwch enw rhagorol ac mae mewn safle da o fewn gwaith dysgu byd-eang WCIA, ond fe fyddai cysylltiad mwy ffurfiol â sefydliad heddwch cenedlaethol Cymru, o bosib, yn dod â pharch, cydnabyddiaeth a dylanwad ychwanegol.

3. Mae sefyllfa ariannu bresennol y Cynllun Ysgolion Heddwch yn cyfyngu ar ei botensial i dyfu a'i sefydlogrwydd i gynllunio ar gyfer y tymor hwy. Pe gellid sicrhau cymorth ariannol pellach drwy Academi Heddwch Cymru, gellid ei fuddsoddi mewn capasiti staff a fyddai'n darparu sefydlogrwydd tymor hirach a'r cyfle i gyflwyno ceisiadau i ymddiriedolaethau elusennol i helpu i ddatblygu'r cynllun. Mae hefyd angen buddsoddi mewn hyfforddi rhagor o hyfforddwyr addysg heddwch i ganiatáu cyflwyno cyrsiau a gweithgareddau'n ehangach.

4. Dylai'r Academi Heddwch archwilio ffynonellau ariannu i gefnogi hwylusydd cyfnewid gwybodaeth gyfryngol i gynorthwyo partneriaeth a chydweithrediad rhwng ymchwilwyr heddwch (drwy Rwydwaith Ymchwil Heddwch Cymru) ac Ysgolion Heddwch i sicrhau bod ysgolion yn cael cyngor a chymorth priodol, a bod ymchwilwyr yn deall gofynion ymarferwyr ysgol.

## Cynllun Ysgolion Heddwch

1. Mae angen gweithredu i feithrin dealltwriaeth well o addysg heddwch. Un ffordd o wneud hyn yw sicrhau cyswllt agosach rhwng addysg heddwch ac addysg datblygu cynaliadwy / addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Yng Nghymru, mae addysg datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eisoes wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm ac mewn nifer o gymwysterau, a byddai gosod addysg heddwch o fewn yr ymagwedd hon yn darparu mwy o gyfleoedd.

2. Mae'r adnoddau a'r canllawiau a ddatblygwyd gan y Cynllun Ysgolion Heddwch yn fanwl, clir a buddiol a gellir dod o hyd iddynt yn gymharol rhwydd ar wefan WCIA a Hwb. Byddai deunyddiau cyflwyniadol, yn egluro cysyniad ac ethos y cynllun, ac yn dangos y cysylltiadau gydag addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang o gymorth i feithrin dealltwriaeth o addysg heddwch. Dylid ystyried

datblygu ystod fechan o bostiadau blog neu ddogfennau un dudalen yn cyflwyno addysg heddwch, sut mae'n cyd-fynd â gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli, a'i fanteision - yn enwedig manteision ar gyfer amgylchedd yr ysgol ac ymddygiad dysgwyr. Gallai'r rhain fod yn bwynt mynediad i sesiynau gwybodaeth ar-lein i athrawon sy'n arddangos a dathlu addysg heddwch a'r Cynllun Ysgolion Heddwch.

3. Mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch wedi bwriadu cefnogi rhwydwaith neu gymuned ymarfer o ysgolion ac athrawon, a byddai gweithredu hyn yn dod â llawer o fanteision. Byddai cylchlythyr rheolaidd i'r gymuned ysgolion heddwch, yn cynnwys newyddion ac adnoddau o'r cynllun, yn ogystal a chynnwys gan ysgolion sy'n cymryd rhan, yn gam cyntaf buddiol i ddatblygu hyn. Byddai rhwydwaith gweithredol yn cryfhau'r cynllun ymhellach ac yn adeiladu momentwm i'w wneud yn fwy gweledol yn ogystal â dyfnhau dealltwriaeth o addysg heddwch.

4. Dylid gwneud ymdrech i ddathlu gwaith a chyflawniad yr ysgolion heddwch yn fwy gweledol - er enghraifft, drwy gofnodi eu straeon mewn fideos byr y gellid eu defnyddio i hyrwyddo'r cynllun hefyd. Byddai gwahodd athrawon ac ysgolion - a rhai dysgwyr o bosibl - i rannu eu profiadau o addysg heddwch yn darparu cipolwg diddorol ar addysg heddwch ac yn helpu i ddatblygu dadl o'i blaid. Dylid hefyd ystyried cyflwyno cynnwys sy'n gysylltiedig ag addysg heddwch i gyfresi sefydledig a ddefnyddir gan athrawon - er enghraifft podlediad *Emma and Tom Talk Teaching.*

## Cwricwlwm a Chymwysterau

1. Dylai'r ymdrechion sydd eisoes yn bodoli i fapio addysg heddwch ar y cwricwlwm newydd gael eu hehangu i ystyried perthnasedd addysg heddwch i agweddau o'r cwricwlwm y tu hwnt i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, er mwyn cynnwys:
   - Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
   - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
   - Cynefin a'r synnwyr o berthyn a chynhwysiant, o fewn cymuned fewnol yr ysgol a'r gymuned allanol mae'r ysgol a'i dysgwyr yn rhan ohoni.

   Byddai hyn yn agor allan addysg heddwch ymhellach a'i gwneud yn haws i ysgolion ddeall yr effaith a'r manteision posibl. Mae angen rhagor o adnoddau i gefnogi addysg heddwch. Mae'r prosiect *Signpost* yn yr Alban yn llwyfan o adnoddau am ddim sydd wedi eu profi ac sy'n cynorthwyo Dinasyddiaeth Fyd-eang weithredol. Ar hyn o bryd, dim ond yn Saesneg mae'r adnoddau ar gael. Dylid ystyried a yw'n bosibl gweithio gyda *Signpost* ac awduron / dechreuwyr yr adnoddau i gydweithio i'w gwneud yn addas mewn cyd-destun Cymreig, gan gynnwys cyfieithu i'r Gymraeg.

2. Mae dull gweithredu ysgol gyfan y Cynllun Ysgolion Heddwch yn ategu a chefnogi'r nod o ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan at lesiant meddyliol ac emosiynol. Gall ffocws addysg heddwch ar empathi,

perthnasoedd rhyngbersonol a llythrennedd emosiynol fod yn arf pwerus i gynorthwyo llesiant dysgwyr a gellid adlewyrchu hyn yn y deunyddiau a ddefnyddir i hyrwyddo'r cynllun.

3. Mae'r Academi Heddwch a'r Cynllun Ysgolion Heddwch mewn sefyllfa dda i ddarparu cyngor ac adnoddau i gynorthwyo cynnwys agweddau sy'n ymwneud â heddwch yn y TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd a'r cymhwyster Sgiliau Byw. Dylid ystyried cyfarfodydd posibl gyda Chymwysterau Cymru a CBAC.

## Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

1. Mae'r Academi Heddwch mewn sefyllfa dda i gychwyn sgwrs ynghylch addysg heddwch o fewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Mae'r gwahanol lefelau o addysg yn gofyn am ymagweddau gwahanol, ond mae potensial i archwilio cynllun peilot addysg heddwch gyda Cholegau Addysg Bellach, gan adeiladu ar eu gwaith o fewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, a'r posibilrwydd o ddatblygu fframwaith addysg heddwch briodol.

2. O fewn Addysg Uwch, mae'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Heddwch yn ddatblygiad pwysig i godi ymwybyddiaeth o ymchwil heddwch, astudiaethau heddwch, a'r posibilrwydd o addysg heddwch. Dylid ystyried trafodaethau gyda chyrff megis Cymru Fyd-eang ac arweinwyr cyrsiau gwleidyddiaeth ryngwladol a chysylltiadau rhyngwladol i archwilio'r posibilrwydd o fewn y cynnig addysg uwch ryngwladol o'r sector Cymreig a chyfleoedd i ddatblygu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ymhellach mewn gweithgareddau dysgu a chyfoethogi, ac i ddatblygu cenhadaeth ddinesig leol a rhyngwladol ymhellach.

3. Os bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol a Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, dylai Academi Heddwch Cymru a'r Cynllun Ysgolion Heddwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad er mwyn hyrwyddo potensial addysg er heddwch mewn dysgu seiliedig ar waith.

4. Mae partneriaethau diweddar y Cynllun Ysgolion Heddwch ag Addysg Oedolion Cymru a'r cyfranogwyr rhyngwladol yn y prosiect *Erasmus+* yn arddangos pwysigrwydd ac effaith cydweithio. Mae yna sgôp i adeiladu ar y berthynas â'r Urdd, a'r posibilrwydd o weithio gyda darparwyr newydd megis Coleg Black Mountain i ddatblygu cyrsiau addysg heddwch o fewn y cyrsiau byr a gynigir, a fyddai'n ategu eu cyrsiau cynaliadwyedd sydd eisoes yn bodoli. Yn ogystal â hyn, byddai rhaglenni cyfnewid gwybodaeth strategol gyda sefydliadau arweiniol yn dod â manteision i addysg heddwch yng Nghymru, ac yn cyfrannu at hyrwyddo enw da rhyngwladol Cymru yn y maes. Yn y sefyllfa ariannu bresennol, gallai *Llwybr 2 Taith* fod y ffynhonnell gyllido bosibl fwyaf hygyrch i ddatblygu hyn, gan weithio ar y cyd â phartner rhyngwladol yn ychwanegol at bartneriaid yng Nghymru.

## Llywodraeth

1. Dylai arian ar gyfer cynllun peilot y cwricwlwm dinasyddiaeth addysg oedolion gael ei ymestyn i gynorthwyo cyflwyno'r cwrs addysg heddwch mewn gwahanol gymunedau a lleoliadau; mae potensial sylweddol iddo gyd-fynd â gwaith ysgolion bro, a byddai'n darparu cyfle i'r cynllun Ysgol Heddwch ymwneud â mentrau sy'n pontio cenedlaethau.

2. Yn y dyfodol, dylai adolygiadau o'r ffordd mae'r cwricwlwm ysgol newydd yn cael ei weithredu gynnwys adolygiad manwl o'r ffyrdd y mae'n cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddorion datblygu cynaliadwy a chyfrifoldeb byd-eang. Byddai hefyd yn amserol i Estyn ailedrych ar y cynnydd a wnaed o ran Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), ddeng mlynedd ers yr adroddiad thematig diwethaf. Yn ogystal â hyn, er mwyn dysgu gwersi a chyfrannu at addysg heddwch fyd-eang - a sylfaen dystiolaeth ADCDF - argymhellir cyflwyno cyllid i gynorthwyo ymchwil addysgol i fentrau addysg heddwch yng Nghymru. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol y llywodraeth.

3. Mae posibl i fentrau addysg heddwch gyfrannu at broffil rhyngwladol Cymru fel 'cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang', ond dim ond gyda lefelau priodol o gyllid i gynorthwyo prosiectau cynaliadwy y gellir cyflawni hyn. Byddai cyllid penodol ar gyfer addysg heddwch yn cynorthwyo'r ymdrech hon.

# Cyflwyniad

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Academi Heddwch Cymru (AHC) ym mis Hydref 2023. Ei fwriad yw darparu gwybodaeth, dadansoddiad, ac argymhellion perthnasol i addysg heddwch yng Nghymru, yng nghyd-destun y diwygiadau addysgol sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Academi Heddwch Cymru yn gweithio i wireddu'r weledigaeth o Gymru heddychlon, lle mae parch, cyfiawnder a thegwch yn cyfrannu at fyd heb drais na'r ofn o drais. Ei chenhadaeth yw helpu pobl yng Nghymru i gyfrannu at heddwch: yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Drwy ymchwil, addysg ac ymgysylltu, mae'n gweithio gyda chymunedau, sefydliadau, llywodraeth ac ymchwilwyr i greu dyfodol teg, cyfiawn a di-drais.

Pwrpas yr adolygiad yw nodi cyfleoedd ar gyfer yr arfer gorau mewn polisi ac ymarfer addysg heddwch yng Nghymru ar draws y cwrs bywyd, gan gynnwys mewn ysgolion, addysg bellach, addysg alwedigaethol a hyfforddiant, addysg uwch a dysgu gydol oes.

Mae'r adroddiad yn amlinellu camau gweithredu posibl er mwyn i Academi Heddwch Cymru hyrwyddo, cynorthwyo a datblygu addysg heddwch yng Nghymru, gan gyfrannu at y Cwricwlwm i Gymru a nodau cysylltiedig ar gyfer addysg ôl-orfodol a dysgu gydol oes.

Mae hefyd yn amlygu'r cyfleoedd i Academi Heddwch Cymru ddefnyddio ei bwerau cynnull fel y sefydliad heddwch cenedlaethol i ddod â phartïon sydd â diddordeb ynghyd i hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng ymchwilwyr academaidd ac ymarferwyr addysgol, ac i helpu i feithrin partneriaethau yng Nghymru a thu hwnt.

## Adnoddau a Dull Gweithredu

Cafodd yr adroddiad ei ddatblygu, ei ymchwilio a'i ysgrifennu gan Dr Sarah Morse rhwng mis Hydref 2023 a mis Mai 2024. Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Academi Heddwch Cymru.

### Adolygiad Llenyddiaeth

Coladwyd ystod o ffynonellau a'u hadolygu. Roedd hyn yn cynnwys llenyddiaeth academaidd, llawlyfrau addysg heddwch a llenyddiaeth lwyd, gan gynnwys adroddiadau gan sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio ym maes addysg heddwch ac/neu yn eirioli dros addysg heddwch. Cafwyd sawl papur ac adolygiad polisi yn ddiweddar, a bu i ddadansoddiadau ohonynt gyfrannu at fireinio'r ymchwil. Ystyriwyd cyd-destunau polisi rhyngwladol hefyd.

### Dadansoddiad o gyd-destun polisi yng Nghymru a throsolwg o bolisïau addysg

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o ddiwygiadau i addysg yng Nghymru yn y degawd diwethaf, o'r cam cynharaf mewn addysg hyd at addysg a hyfforddiant trydyddol, ôl-orfodol ac i oedolion. Mae'r datblygiadau'n ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gan ddefnyddio gwybodaeth am yr holl agweddau ar bolisi addysg, mae'r dadansoddiad hwn yn ystyried elfennau sy'n cydgyffwrdd yn y gwahanol ddeddfwriaeth, polisïau a fframweithiau ac yn dethol llinynnau cyffredin y gallai addysg heddwch gyfrannu'n gadarnhaol atynt.

### Ymchwil Ansoddol

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda saith ymarferwr addysg rhwng 15 Tachwedd 2023 a 15 Ionawr 2024. Yn gynnar yn natblygiad yr adroddiad, mynychodd yr awdur gynhadledd flynyddol Ysgolion Heddwch Cymru (8 Tachwedd 2023) a chyfarfod â staff cynllun Ysgolion Heddwch Cymru i ddysgu am eu gwaith a'u gweithgareddau.

Roedd yn amlwg o'r adolygiad llenyddiaeth nad oes gwybodaeth na dealltwriaeth eang o addysg heddwch yn y sector addysg hyd yma. I gyfyngu'r ffocws o fewn y gymuned ymarferwyr ysgol, gweithiodd yr awdur gyda'r Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru i nodi cysylltiadau y gwyddys eu bod yn barod i wrando ac yn weithredol mewn addysg heddwch. Cysylltwyd â deg o athrawon; cafwyd dau ymateb. Dewisodd un ymatebwr ddarparu atebion ysgrifenedig i'r cwestiynau cyfweliad, a chafodd y llall gyfweliad dros Zoom. Mae'n debyg bod yr amseriad (ail hanner tymor yr hydref) wedi cyfyngu ar y gyfradd ymateb. Anfonwyd gwahoddiadau pellach ar ddechrau mis Ionawr, cyn dechrau tymor y Gwanwyn, ond ni dderbyniwyd ymatebion pellach.

Cynhaliwyd ymchwil desg i ganfod cysylltiadau perthnasol o fewn adrannau addysg a hyfforddi athrawon prifysgolion ac i ganfod arweinwyr o fewn Addysg Bellach. Defnyddiwyd cysylltiadau proffesiynol presennol yn y sector hefyd. Cysylltwyd â 12 unigolyn, cafwyd pum ymateb, a chynhaliwyd dau gyfweliad dros Zoom. Yn ychwanegol at y dadansoddiad o'r potensial ar gyfer addysg heddwch o fewn hyfforddiant athrawon a

datblygiad proffesiynol, bu'r ymatebion a gafwyd o help i lywio'r ystyriaeth o'r datblygiadau mewn cyrsiau TGAU yng Nghymru.

Sail y dadansoddiadau Addysg Uwch oedd gwybodaeth bresennol yr awdur ac ymchwil flaenorol, yn ogystal â chyngor Arweinydd Ymchwil Academi Heddwch Cymru.

## Cynnal cyfweliadau

Rhoddodd cyfranogwyr y cyfweliadau ganiatâd i'w sylwadau gael eu defnyddio'n ddienw. Roedd cyfweliadau wedi eu lled-strwythuro ac yn canolbwyntio ar dair thema allweddol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o Addysg Heddwch;
- Perthnasedd neu berthnasedd posibl y dull gweithredu i ymchwil, ymarfer neu brofiad yr atebwr;
- Cwestiynau ehangach ynghylch 'beth sy'n gweithio' – gan gynnwys yr arfer orau ar gyfer rhwydweithiau, dysgu proffesiynol a chyfnewid gwybodaeth.

Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau ar y dybiaeth eu bod yn ddienw a bod yna gydsyniad gwybodus. Recordiwyd y cyfweliadau a chawsant eu cynnal ar-lein.

Cynhaliwyd dwy drafodaeth bellach, na chawsant eu recordio, fel sail i ymchwil ar PRIF (Peace Research Institute Frankfurt) a Choleg Penybont. Roedd y rhain yn defnyddio fformat a strwythur ychydig yn wahanol, gan eu bod yn edrych ar gyd-destun a phrofiad sefydliadau a enwir.

## Defnyddio data cyfweld

Cafodd y cyfweliadau a recordiwyd eu trawsgrifio a'u dadansoddi gan awdur yr adroddiad.

Mae dyfyniadau uniongyrchol o'r cyfweliadau bron iawn air am air; mewn rhai achosion mae'r iaith wedi'i thacluso er mwy ei gwneud yn ddarllenadwy neu i gywiro anghysondebau ieithyddol wrth siarad (e.e. cael gwared ar 'wyddoch chi' neu ychwanegu 'gyda' neu 'y' os ydynt ar goll, etc.).


## Beth yw heddwch?

Mae Academi Heddwch Cymru yn diffinio heddwch fel 'mwy nag absenoldeb rhyfel yn unig'.

> Mae heddwch yn golygu byd heb drais na'r ofn o drais, yn ogystal â'r amodau i atal gwrthdaro, megis tegwch a pharch.
>
> Mae diffyg heddwch yn ymwneud â mwy na'r 'gwrthdaro sy'n digwydd ymhell i ffwrdd', neu sefyllfaoedd 'na allwn wneud unrhyw beth yn eu cylch'. Mae heddwch hefyd yn ymwneud â'r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt ac ofnau ac ansicrwydd bob dydd, megis cam-drin domestig, hiliaeth neu anghydraddoldeb. [1]

Cyn archwilio agweddau amlochrog addysg heddwch, mae angen ystyried heddwch. Y diffiniad symlaf o heddwch yw absenoldeb rhyfel neu drais uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth o natur trais wedi datblygu i gwmpasu trais strwythurol, hynny yw, y ffyrdd mae pobl yn dioddef oherwydd trais sy'n bresennol mewn cymdeithas drwy ei systemau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd.[2]

Mae cysyniad estynedig yr athronydd Johan Galtung o heddwch a thrais yn egluro bod heddwch yn bosibl yn absenoldeb trais uniongyrchol/personol (heddwch negyddol) a thrais strwythurol a diwylliannol a phresenoldeb cyfiawnder cymdeithasol (heddwch cadarnhaol).[3] Heddwch negyddol yw atal trais uniongyrchol, ond nid yw'n mynd i'r afael ag achos y gwrthdaro. Mae heddwch sy'n cael ei gysyniadu fel hyn yn symud y tu hwnt i "reoli a lleihau'r defnydd agored o drais" i gyd-fynd â gwaith i fynd i'r afael â gwrthdaro ac anghydraddoldebau strwythurol a diwylliannol, a'u goresgyn.[4] Bu i bapur polisi diweddar gan sefydliad Solidar addasu crynodeb defnyddiol Loreta Navarro-Castro a Jasmin Nario-Galace o gysyniadau heddwch negyddol a chadarnhaol, gan ddangos cwmpas y dull gweithredu a'i berthnasedd eang i agweddau ar gyfiawnder cymdeithasol:[5]




*Ffigwr 1: Solidar Foundation, addaswyd o Navarro-Castro a Nario-Galace* [6]

---

[1] Naratif cyhoeddus drafft, Academi Heddwch Cymru

[2] Navarro-Castro, L., a Nario-Galace, J. (2019). *Peace education: A pathway to a culture of peace* (3rd ed.) https://www.peace-ed-campaign.org/wp-content/uploads/2019/07/PeaceEducation_3rdEdition_2019.pdf


[3] Galtung, J. (1969). Violence, Peace, and Peace Research. *Journal of Peace Research*, 6(3), tt167–191. t 183 https://doi.org/10.1177/002234336900600301

[4] Galtung, J. (1969). Violence, Peace, and Peace Research. *Journal of Peace Research*, 6(3), tt167–191. t 183 https://doi.org/10.1177/002234336900600301

[5] *A Sustainable Journey to Peace: Peace Education in The Context Of Global Citizenship Education,* Sefydliad Solidar, Tachwedd 2022 https://www.solidar.org/system/downloads/attachments/000/001/648/original/Policy_Paper_Peace_Education_Final_Version.pdf?1671711993

[6] *A Sustainable Journey to Peace: Peace Education in The Context Of Global Citizenship Education,* Sefydliad Solidar, Tachwedd 2022

Mae tynnu sylw at bwysigrwydd "amodau llesiant, cydweithredu a pherthnasoedd cyfiawn" yn darparu lle i ystyried y gwahanol lefelau lle mae heddwch yn cael ei brofi - o heddwch mewnol personol, i'r ddeinameg rhwng dynoliaeth a'r blaned.




*Ffigwr 2: Addaswyd o Navarro-Castro a Nario-Galace.*[7]

Mae'r ddealltwriaeth gyfannol hon o heddwch yn rhoi cyfle radical i ystyried pŵer ac effaith rhyngweithiadau dynol ac i ddeall gwrthdaro ac anghyfiawnder yn well, a delio â nhw a'u hatal yn well. Mae hefyd yn cyd-fynd ag Agenda ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 2030 y Cenhedloedd Unedig a'i "lasbrint cyffredin ar gyfer heddwch a ffyniant i bobl a'r blaned, heddiw ac i'r dyfodol".

Yn y cyd-destun penodol Cymreig, mae fframio heddwch o fewn y termau ehangach hyn yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn y gyfraith, ac yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella'r llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.[8] Y saith nod llesiant, a ddiffinnir yn y ddeddf, yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r dyheadau'n cyd-fynd ag egwyddorion heddwch mewnol, rhyngbersonol, cymdeithasol, byd-eang a phlanedol. Gallai fframio heddwch o fewn y fframwaith datblygu cynaliadwy ehangach fod yn ffordd strategol bwerus o egluro a hyrwyddo perthnasedd dulliau gweithredu heddwch i weithwyr polisi proffesiynol.

https://www.solidar.org/system/downloads/attachments/000/001/648/original/Policy_Paper_Peace_Education_Final_Version.pdf?1671711993

[7] Navarro-Castro, L., a Nario-Galace, J. (2019). *Peace education: A pathway to a culture of peace* (3ydd cyh.) https://www.peace-ed-campaign.org/wp-content/uploads/2019/07/PeaceEducation_3rdEdition_2019.pdf, t 20

[8] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion, https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-yr-hanfodion-html (cyrchwyd 30 Ebrill 2024)

## Beth yw addysg heddwch?

Mae yna sawl dehongliad a theori o addysg heddwch, ac mae sefydliadau sy'n gweithio i'w hybu wedi cydnabod "nad yw'n glir i lawer o weithredwyr addysgol [a] llunwyr polisi [...] beth yw addysg heddwch" oherwydd ystod y dulliau gweithredu a'r diffyg dealltwriaeth gyffredin.[9]
Nod addysg heddwch, yn gyffredinol, yw hyrwyddo'r wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau, a'r gwerthoedd sydd eu hangen i greu diwylliant o heddwch ac atal gwrthdaro p'un ai ar lefel ryngbersonol, gymdeithasol, genedlaethol neu ryngwladol.[10] Mae'n cwmpasu ystod o ddulliau gweithredu a strategaethau addysgol sy'n canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth, goddefgarwch, dulliau di-drais, datrys gwrthdaro, a hyrwyddo hawliau dynol. Gan ddefnyddio egwyddorion heddwch cadarnhaol, mae Daniel Bar-Tal yn amlinellu yn y traethawd 'The Elusive Nature of Peace Education' y dylid ystyried addysg heddwch:

> nid fel pwnc ar wahân nac fel prosiect, ond bod yn rhaid ei weld fel cyfeiriadedd addysgol [...] Mae addysg heddwch yn darparu prism y mae disgyblion yn dysgu sut i edrych drwyddo ar destunau a materion a godwyd yn y gwahanol bynciau, a'u gwerthuso, a thrwy hyn maent yn dysgu sut i edrych ar faterion cyfredol mewn cymdeithas a'u gwerthuso. [11]

Mae deall addysg heddwch fel cyfeiriadedd, neu fel y mae Navarro-Castro a Nario-Calace yn ei gynnig, proses i drawsnewid meddylfryd yn darparu fframwaith defnyddiol. [12] Maent yn gwerthuso bod addysg heddwch:

> yn meithrin y sylfaen wybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd sy'n ceisio trawsnewid meddylfryd, agweddau ac ymddygiadau pobl [...] drwy adeiladu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, datblygu consyrn a herio gweithredu personol a chymdeithasol fydd yn galluogi pobl i fyw, cyd-ddeall a chreu amgylchiadau a systemau sy'n gwireddu dulliau di-drais, cyfiawnder a gofal amgylcheddol a gwerthoedd heddwch eraill.[13]

Gall gwybodaeth ar gyfer heddwch gynnwys dysgu ynghylch cysyniad cyfannol o heddwch, y gwahaniaethu rhwng heddwch cadarnhaol a heddwch negyddol, trais uniongyrchol, strwythuredig a diwylliannol a'u heffaith, ac opsiynau heddychlon eraill. Mae sgiliau ar gyfer heddwch yn cynnwys meddwl yn feirniadol, gwrnado'n weithredol, deialog, cyfryngu a thrafod. Mae agweddau i gynorthwyo heddwch yn cynnwys hunan ymwybyddiaeth, hunan barch a pharchu eraill, cynhwysiant, a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae

---

[9]*A Sustainable Journey to Peace: Peace Education in The Context Of Global Citizenship Education, Ymddiriedolaeth* Solidar, Tachwedd 2022. t 5 and *Mainstreaming Peace Education - Methodologies, Approaches and Visions: A Practitioner's Manual* https://www.salto-youth.net/downloads/toolbox_tool_download-file-1086/MPE_manual_web.pdf

[10] https://www.grainesdepaix.org/en/resources/peace-dictionary/peace-education-unicef-susan-fountain-et-al-1999 Cyrchwyd 5 Tachwedd 2023

[11] Bar-Tal, D. (2002). The Elusive Nature of Peace Education. In G. Salomon & B. Nevo (Eds.), *Peace Education: The Concept, Principles, and Practices Around the World* (tt. 27–36). Taylor a Francis. t 31

[12] Navarro-Castro, L., a Nario-Galace, J. (2019). *Peace education: A pathway to a culture of peace* (3ydd cyh.) https://www.peace-ed-campaign.org/wp-content/uploads/2019/07/PeaceEducation_3ydd Argraffiad_2019.pdf, t 25

[13] Navarro-Castro, L., a Nario-Galace, J. (2019). t 25

Cyngor y Crynwyr ar gyfer Materion Ewropeaidd yn cofnodi'r cymwyseddau canlynol yn ymwneud ag addysg heddwch yn eu papur *Peace Education: Making the Case*:[14]

| Gwybodaeth | Sgiliau | Ymddygiad a gwerthoedd |
|---|---|---|
| Trais uniongyrchol, strwythurol a diwylliannol<br>Achosion a dynameg gwrthdaro treisiol<br>Opsiynau amgen heddychlon i drais<br>Hawliau dynol<br>Gwrth-hiliaeth<br>Cydraddoldeb rhywedd<br>Materion cyfoes<br>Yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy<br>Prosesau dinesig<br>Heddwch cadarnhaol a heddwch negyddol<br>Cynhwysiant ac allgáu<br>Rheoli, atal, datrys a thrawsnewid gwrthdaro<br>Dysgu rhyng-ffydd a rhyng-ddiwylliannol | Cydweithio adeiladol<br>Deialog<br>Cyfryngu<br>Cyfathrebu di-drais (yn cynnwys cyfathrebu chwilfrydig, pendant)<br>Deall, rheoli a mynegi emosiynau<br>Gwrando'n weithredol<br>Cydweithio rhyng-ddiwylliannol<br>Gwaith tîm<br>Sgiliau dadansoddi<br>Meddwl yn feirniadol<br>Trafod<br>Myfyrio | Meddwl agored a chynwysoldeb<br>Hunan barch, parchu eraill a pharchu'r amgylchedd<br>Empathi<br>Undod<br>Cysylltedd cymdeithasol<br>Hunanymwybyddiaeth<br>Goddefgarwch<br>Awydd i hyrwyddo cyfiawnder<br>Cyfrifoldeb cymdeithasol<br>Chwilfrydedd<br>Sensitifrwydd i rywedd<br>Parodrwydd i gydweithio<br>Tosturi |

Mae atgyfnerthu'r ddeinameg rhwng y dimensiynau gwybyddol (dealltwriaeth), affeithiol (ymateb) a gweithredol (gweithredu) yn helpu dysgwyr i adnabod a chreu cysylltiadau ac ystyr, gan ei gwneud yn fwy tebygol y bydd safbwyntiau ac ymddygiadau heddwch yn cael eu mabwysiadu a'u defnyddio.[15] Mae'r dull gweithredu cyfannol trawsgwricwlaidd a rhyngddisgyblaethol hwn yn dangos y cyfleoedd posibl i integreiddio dull gweithredu addysg heddwch o fewn addysg ffurfiol ac anffurfiol, gan ddefnyddio ystod eang o bynciau a themâu i archwilio materion perthnasol. Fel y bydd yr adroddiad yn ei ystyried yn y penodau nesaf, mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, gyda'i bwyslais ar gydweithio a dysgu traws ddisgyblaethol, yn darparu cyfle i ysgolion integreiddio addysg heddwch yn eu dull gweithredu cwricwlaidd.

[14] Zwart, D. *Peace Education: Making the Case* https://www.qcea.org/wp-content/uploads/2019/01/Peace-Education-report.pdf, 2019, cyrchwyd 12 Tachwedd 2023
[15] Navarro-Castro, L., & Nario-Galace, J. (2019). t 27

## Manteision addysg heddwch ar gyfer cymunedau dysgu

Mae ysgolion yn darparu'r cyfleoedd i ymarfer adeiladu cymuned yn weithredol, drwy ddarparu lle i bobl ifanc ddysgu sut i dderbyn a pharchu ei gilydd, croesawu gwahaniaethau a dysgu byw gydag amrywiaeth o ddydd i ddydd.[16] Gallant fod yn gymunedau i ymarfer democratiaeth, lle gall myfyrwyr ddysgu ynghylch y pŵer sydd ganddynt i drawsnewid gwrthdaro mewn modd di-drais a chydweithredol. Gan ddefnyddio model 'tri dull gweithredu ar gyfer heddwch'[17] Galtung, mae Hilary Cremin a Roy Leighton wedi datblygu matrics addysg heddwch cadarnhaol. Wedi'i ddatblygu fel offeryn i gefnogi'r gwaith o archwilio "lefelau heddwch a gwrthdaro o fewn cymunedau ysgolion" fel rhan o waith Canolfan Addysg ac Ymchwil Heddwch Caergrawnt.

**Matrics Heddwch Cadarnhaol Cremin a Leighton**

| | **Heddwch Mewnol** *Llesiant* | **Heddwch Allanol** *Perthnasoedd* | **Heddwch Cymunedol a Byd-eang** *Dinasyddiaeth* | **Heddwch Ecolegol** *Cosmos* |
|---|---|---|---|---|
| **Adeiladu Heddwch**<br><br>*Twf a Newid* | **Adeiladu capasiti** ar gyfer heddwch a llesiant, ac ar gyfer ffyrdd newydd o feddwl, o wybod ac o fodoli.<br><br>**Dysgu** hunanymwybyddiaeth, hunan-dderbyn, hunanreolaeth a hunanfynegiant. | **Datblygu** perthnasoedd iach a dysgu gweithio gydag eraill amrywiol<br><br>**Deall a myfyrio ar** ddulliau datrys gwrthdaro rhyngbersonol a llythrennedd gwrthdaro. | **Estyn allan** ar draws cymunedau a'r byd.<br><br>**Myfyrio a mynegi'r** gwerthoedd dynol o ddinasyddiaeth fyd-eang, ymwybyddiaeth feirniadol, dulliau di-drais a gofal, a **gwerthuso** cyfranogiad mewn rhaglenni creu heddwch yn yr ysgol, yn lleol ac yn fyd-eang. | **Dysgu** gofalu am y blaned, ac i fod 'mewn cariad' â bywyd.<br><br>**Mynd y tu hwnt** i'r Anthroposen ac **anrhydeddu**'r 'mwy na dynol'. |
| **Creu Heddwch**<br><br>*Adfer* | **Mynd i'r afael â** gwrthdaro mewnol**,** a **darparu cyfleoedd** i adfer a chymodi. | **Datrys** gwrthdaro'n ddi-drais, gan ddefnyddio'r sbectrwm llawn o strategaethau datrys gwrthdaro. | **Mynd i'r afael â** gwrthdaro mewn ysgol a chymunedau, a **chyfranogi** mewn rhaglenni creu heddwch lleol a byd-eang. | Prosiectau **ailnaturio** ac **ailgysylltu** â byd natur. |
| **Cadw'r Heddwch**<br><br>*Cadw* | **Amddiffyn** ffiniau personol, iechyd meddwl a llesiant. | **Amddiffyn** hawliau a chyfrifoldebau, a chadw pobl yn ddiogel. | **Amddiffyn** cymunedau lleol a byd-eang, a'n cymuned ysgol | **Amddiffyn** y blaned a'i hecosystemau. |

*Ffigwr 3: The 'Positive Peace Matix' Hawlfraint yr Athro Hilary Cremin a Roy Leighton (2022) o'r Cambridge Peace and Education Research Group (CPERG).* [18]

---

[16] EduCATe. "Teachers Are Key: Training Teachers in Nonviolent Conflict Transformation." Papur Sefyllfa, 2018 t 3 https://eu.metododanielenovara.it/wp-content/uploads/2015/10/EduCATe_Position-Paper_EN.pdf

[17] Galtung, J Three realistic approaches to peace: peacekeeping, peacemaking, peacebuilding, *Impact of science on society*, XXVI, ½ 1976, t. 103-115

[18] Grŵp Ymchwil Addysg a Heddwch Caergrawnt, https://www.cperg.org/programmes Cyrchwyd 9 Tachwedd 2023

Mae'r matrics yn cofnodi dulliau gweithredu eang cadw'r heddwch, creu heddwch ac adeiladu heddwch a'r amrywiol lefelau lle gellir profi heddwch - a gwrthdaro - o'r personol i'r byd-eang, ac mae'n darlunio arferion, ymddygiadau a dulliau sy'n cyfrannu at heddwch cadarnhaol (gweler Ffigwr 3).[19] Mae mynd i'r afael â llesiant y gymuned ysgol yn creu lle diogel a synnwyr o berthyn, sy'n meithrin gwytnwch a dealltwriaeth. Gall dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer addysg heddwch gael effaith gadarnhaol ar amgylchedd ysgol, gan leihau gwrthdaro rhwng disgyblion, grymuso staff i reoli sefyllfaoedd anodd, a chreu amgylchedd dysgu gwell.[20]

Mae'r wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mae'n ei rannu yn paratoi pobl i ddelio â gwrthdaro mewn ystod o gyd-destunau - yn eu bywyd teuluol ac wrth ryngweithio yn y gymuned ehangach - ac yn y tymor hir mae hyn yn cyfrannu at gymunedau mwy cydlynol.[21] Mae'r agwedd hon ar addysg heddwch, a'i chymhwyso'n weithredol mewn bywyd dyddiol, yn cynnig potensial ar draws y daith ddysgu gydol oes, gan gynnwys addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Datblygodd y Fforwm Rhyngddiwylliannol Ewropeaidd lawlyfr ymarferydd, *Mainstreaming Peace Education*, yn 2014, sy'n ein hatgoffa bod addysg gydol oes ac addysg oedolion yn ymestyn y tu hwnt i "gyflogadwyedd a datblygiad proffesiynol", ac yn cyfrannu "tuag at feithrin dinasyddiaeth weithredol, cryfhau twf personol a sicrhau cynhwysiant cymdeithasol a chydlynol drwy ddatblygu cymwyseddau allweddol gydol oes".[22] Gallai creu cyfleoedd o fewn dysgu gydol oes i archwilio agweddau ar addysg heddwch ddod â llu o fanteision i ddysgwyr, eu perthnasoedd, cymunedau a chymdeithas ehangach.

## Addysg Heddwch a Safbwyntiau Byd-eang

Mae'r agweddau byd-eang a phlanedol ar ddealltwriaeth gyfannol o heddwch hefyd yn rhan o addysg heddwch. Mae datblygiad a thwf addysg dinasyddiaeth fyd-eang (ADF) ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ADC) wedi pwysleisio ymhellach rôl addysg wrth greu undod a dealltwriaeth ryngwladol, ac fel "arf i fynd i'r afael â bygythiadau a'u trawsnewid, yn ogystal â llwybr at heddwch cynaliadwy".[23]

Mae addysg heddwch yn cael ei gynnwys yn Nod Datblygu Cynaliadwy 4.7, sydd, erbyn 2023, â'r diben o sicrhau bod:

> pob dysgwr yn caffael y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, gan gynnwys, ymysg eraill, drwy addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a ffordd o fyw cynaliadwy, hawliau dynol, cydraddoldeb rhywedd, hyrwyddo diwylliant o heddwch a diwylliant di-drais, dinasyddiaeth

[19] Peace Profiling in Schools, Grŵp Ymchwil Addysg Heddwch Caergrawnt,, https://www.cperg.org/programmes, cyrchwyd 12 Tachwedd 2023
[20] Zwart, D. *Peace Education: Making the Case* https://www.qcea.org/wp-content/uploads/2019/01/Peace-Education-report.pdf, 2019, cyrchwyd 12 Tachwedd 2023
[21] EduCATe. "Teachers Are Key: Training Teachers in Nonviolent Conflict Transformation." Papur Sefyllfa, 2018 t 6-8 https://eu.metododanielenovara.it/wp-content/uploads/2015/10/EduCATe_Position-Paper_EN.pdf
[22] Fforwm Rhyng-ddiwylliannol Ewropeaidd, *Mainstreaming Peace Education: Methodologies, Approaches and Visions,* 2014 http://unoy.org/wp-content/uploads/Mainstreaming-Peace-Education.pdf t 24
[23] *New Understandings of Education's Contributions to Peace* UNESCO Technical note, 2022 https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000381530 t 3

fyd-eang a gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol a chyfraniad diwylliant i ddatblygu cynaliadwy.[24]

Mae yna lawer o nodweddion cyffredin a gorgyffwrdd rhwng ADF, ADCDF, addysg hawliau dynol (AHD) ac addysg heddwch. *Mae papur polisi 2022 Ymddiriedolaeth* Solidar *A Sustainable Journey to Peace: Peace Education in The Context Of Global Citizenship Education,* yn nodi bod y fframweithiau hyn yn cyflwyno her a chyfle i ymarferwyr. Mae llywio'r dulliau gweithredu amrywiol, deall eu rhyng-gysylltiadau a safle yn nhirwedd y polisi yn gynyddol heriol, ond gall y croestoriadau ddarparu mwy o gyfleoedd i ymgorffori addysg heddwch a chreu cynghreiriau a datblygu rhwydweithiau.[25] Mae menter ymchwil 'Mapio Addysg Heddwch' yr Ymgyrch Fyd-eang ar gyfer Addysg Heddwch wedi dechrau coladu prif ganghennau a themâu a dulliau gweithredu arwyddocaol addysg heddwch. Mae'r ymarfer yn cynnwys ADF, ADC a AHD oherwydd, er nad yw'r dulliau gweithredu hyn yn cael eu nodi'n amlwg fel 'addysg heddwch', mae eu diben cymdeithasol pendant a nodau addysgol yn cyfrannu'n uniongyrchol ar ddiwylliannau heddwch.[26] Mae mapio'r themâu'n dod â'r nodweddion cyffredin at ei gilydd ac yn datgelu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, rhannu gwybodaeth ac arferion rhwng gwahanol feysydd, a chreu partneriaethau newydd posibl rhwng sefydliadau sy'n gweithio yn y maes.

Cododd Argymhelliad UNESCO 1974 sy'n ymwneud ag Addysg ar gyfer Dealltwriaeth, Cydweithio a Heddwch Rhyngwladol ac Addysg yn ymwneud â Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol broffil addysg heddwch. Fe ffurfiodd egwyddorion ar gyfer rheoliad rhyngwladol addysg i gynorthwyo datblygu cyfiawnder, rhyddid, hawliau dynol a heddwch - fe lywiodd Agenda 2030, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ac Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang. [27] Ym mis Tachwedd 2023, bu i aelod-wladwriaethau UNESCO ddiweddaru Argymhelliad 1974 i adlewyrchu'r heriau niferus sy'n wynebu dynoliaeth sydd wedi'u cydnabod yn yr hanner can mlynedd ddiwethaf, yn cynnwys newid hinsawdd, prynwriaeth anghynaladwy, pandemigau a chlefyd heintus, ideolegau treisgar ac atgas yn lledaenu'n gyflym, hiliaeth systematig, ac anghydraddoldebau cyson. Mae teitl argymhelliad UNESCO 2023 Argymhelliad, Addysg ar gyfer Heddwch, Hawliau Dynol a Datblygu Cynaliadwy, yn gosod addysg heddwch o fewn addysg datblygu cynaliadwy, a gallai hybu gwerthfawrogiad ac ymwybyddiaeth bellach o'r dull gweithredu.

## Diffiniad

Nod addysg heddwch yw hyrwyddo gwybodaeth, sgiliau, agweddau, a gwerthoedd sydd eu hangen i greu diwylliant o heddwch ac atal gwrthdaro ar wahanol lefelau ac mae, heb os, yn ddaioni absoliwt. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu'n wynebu peth rhagdybiaethau a rhwystrau. Mae yna luosogrwydd o

[24] https://www.globalgoals.org/goals/4-quality-education/ cyrchwyd 10 Tachwedd 2023
[25] *A Sustainable Journey to Peace: Peace Education in The Context Of Global Citizenship Education, Ymddiriedolaeth* Solidar, Tachwedd 2022. t 15-16
[26] https://map.peace-ed-campaign.org/what-is-peace-ed/ a https://map.peace-ed-campaign.org/approaches-themes/
[27] *Recommendation on Education for Peace and Human Rights, International Understanding, Cooperation, Fundamental Freedoms, Global Citizenship and Sustainable Development,* ED/REV-1974REC/2023/6, https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000386653

ddehongliadau, ac mae addysg heddwch yn "amlochrog, amrywiol ac amlffurf".[28] Yn ogystal â hyn, fel y myfyriodd Nevena Radosavljević,, hyfforddwr addysg heddwch, gall y cysyniad ei hun ymddangos yn od - "rhywbeth sy'n 'hipïaidd', amgen [...] idealistig neu brin yn gyraeddadwy". [29] Fodd bynnag, mae wedi'i gysylltu'n gynhenid ag addysg ar hawliau dynol, mae'n adfer perthnasoedd ac yn hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol.

At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir addysg heddwch fel dull gweithredu addysgol trawsgwricwlaidd gyda'r nod o hyrwyddo dealltwriaeth a diwylliant cyfannol o heddwch drwy drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau, agweddau, a gwerthoedd sy'n angenrheidiol ar gyfer atal gwrthdaro a chreu cymdeithas heddychlon. Mae astudiaethau heddwch, sef dysgu ynghylch achosion ac effaith rhyfel, opsiynau amgen i ryfel, adeiladu heddwch ac ymgyrchodd heddwch, yn cael ei gynnwys o fewn addysg heddwch, ond mae addysg heddwch yn ehangach yn ei ymagwedd wrth iddo annog a chynorthwyo newid ymddygiad a gweithredoedd er mwyn gweld gwerth heddwch ar wahanol lefelau. Yn wahanol i astudiaethau heddwch, nid yw addysg heddwch yn bwnc ar wahân, ond yn ddull gweithredu sy'n treiddio i wahanol bynciau, gan helpu dysgwyr i werthuso testunau a materion cymdeithasol cyfoes drwy lygad heddwch.

[28] Bar-Tal, Daniel. 'The Elusive Nature of Peace Education' G. Salomon & B. Nevo (Eds.), *Peace Education: The Concept, Principles, and Practices Around the World* (tt. 27–36). Taylor a Francis 2002

[29] Radosavljević, Nevena, 'Renewal of education for peace and why it is important?!' *Coyote* Cyhoeddiad 33, Council of Europe https://pjp-eu.coe.int/en/web/coyote-magazine/renewal-of-education-for-peace-and-why-is-it-important

## Addysg Heddwch mewn cyd-destun Cymreig

Mae adroddiad Addysg 2030 diweddar gan UNESCO yn amlinellu bod ymgorffori addysg heddwch mewn addysg ffurfiol yn strategaeth annatod i adeiladu heddwch, a gellir ei "integreiddio i ysgolion i gynorthwyo'r nodau dysgu angenrheidiol i fynd i'r afael â bygythiadau byd-eang a'u hamlygiadau lleol".[30] Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rôl bwysig addysg anffurfiol i gyrraedd cynulleidfa ehangach o ddysgwyr, yn cynnwys pobl ifanc ac oedolion. Mae'n nodi bod angen strategaethau pellach i gynorthwyo dysgu anffurfiol ar gyfer heddwch sy'n digwydd yn y teulu, y gweithle a lleoliadau yn y gymuned; mae strategaethau a seilwaith dysgu gydol oes yn hanfodol i "gynorthwyo datblygiad llawn y person, ac i feithrin datblygu capasiti drwy gydol bywyd i ymateb i fygythiadau newydd mewn byd sy'n newid".[31] Bydd gweddill yr adroddiad hwn yn ystyried enghreifftiau o arferion Addysg Heddwch yng Nghymru, a'r potensial i'w datblygu, ar draws taith y dysgwr o'r ysgol gynradd hyd at addysg ôl-orfodol, gan edrych ar weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol.

Cyn troi i edrych ar enghreifftiau o addysg heddwch yng Nghymru, mae angen amlinellu'r cyd-destun ehangach, yn cynnwys statws Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn system addysg Cymru. Mae diwygio sylweddol wedi digwydd i addysg yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o lefel meithrin i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Mae nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi eu hymgorffori yng ngweledigaeth y llywodraeth ar gyfer addysg, ac mae Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru yn cynnwys deilliannau sy'n gysylltiedig ag addysg.[32]

Yn 2008, mynegodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bryd hynny ddyhead i ysgolion, addysg bellach, a dysgu oedolion, weithio i ymgorffori ADCDF ym mhob rhan o'u dysgu ac addysgu.[33] Mae'r cysyniadau felly wedi bod yn rhan o'r ymagwedd at addysg yng Nghymru am yn agos i genhedlaeth, a dylai bod dealltwriaeth dda o fewn y sector. Cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig yn 2014 oedd yn nodi bod cynnydd penodol wedi ei wneud ers 2006 o ran dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang, a'u bod, yn gyffredinol, yn gwybod "sut i leihau gwrthdaro personol".[34] Byddai gosod addysg heddwch o fewn ADCDF ac Addysg Hawliau Dynol yn debygol o fod yn fanteisiol yn strategol yn y cyd-destun Cymreig, a byddai arddangos

---

[30] UNESCO, *Peace education in the 21st century: an essential strategy for lasting peace* https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000388385, t 9 cyrchwyd 25 Mai 2024

[31] Ibid, t 10

[32] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru 2023 https://www.gov.wales/wellbeing-wales-2023

[33] "Mae newid hinsawdd, tlodi, gwrthdaro a phwysau cwsmer i gyd yn rhan o'n byd ni heddiw. Mae ADCDF yn ceisio dod o hyd i ffyrdd i godi ymwybyddiaeth a gweithredu i fynd i'r afael â chanlyniadau ein dewis o ffordd i fyw" Jane Hutt AS, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Diasyddiaeth Fyd-eang - *Strategaeth Gweithredu.* Dyfynnwyd yn *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer Ysgolion,* Llywodraeth Cymru, https://hwb.gov.wales/storage/eaf467e6-30fe-45c9-93ef-cb30f31f1c90/common-understanding-for-school.pdf t 3

[34] Estyn, *ADCDF: Cynnydd mewn addysg ar gyfer datblygu a dinasyddiaeth fyd-eang,* *https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/ESDGC%253A%2520Progress%2520in%2520education%2520for%2520sustainable%2520development%2520and%2520global%2520citizenship%2520-%2520June%25202014.pdf* *t* 3-4

cyfatebolrwydd addysg heddwch ac ADCDF yn helpu i fframio'r ymagwedd mewn termau a all fod yn fwy cyfarwydd, ac yn fwy atyniadol, i ymarferwyr addysgol a gweithwyr polisi proffesiynol.

Roedd *Cynllun gweithredu, Cenhadaeth ein Cenedl 2017–21* Llywodraeth Cymru yn amlinellu gweledigaeth eang ar gyfer addysg yng Nghymru, ar bob lefel.[35] Roedd y cynllun gweithredu yn amlinellu sut fyddai'r ymagwedd at addysg yn cyfrannu at y nodau llesiant, yn cynnwys;

- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Meithrin cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell
- Cynorthwyo pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes
- Arfogi pawb â'r sgiliau priodol ar gyfer byd sy'n newid
- Meithrin cymunedau, diwylliant ac iaith cydnerth
- Hyrwyddo ac amddiffyn lle Cymru yn y byd

Wrth galon y weledigaeth, a'r diwygiadau sy'n gysylltiedig, roedd y Cwricwlwm i Gymru, a gafodd ei weithredu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn 2022. Cyd-ddyluniwyd fframwaith Cwricwlwm i Gymru gydag athrawon ac ysgolion yn cymryd rhan allweddol gan adael i bob ysgol ddatblygu a darparu eu cwricwlwm eu hunain. Wedi'i adeiladu ar bedwar diben, y nod yw datblygu dysgwyr sy'n:

- uchelgeisiol, galluog, ac sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr creadigol, mentrus, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.[36]

Mae'r dibenion hyn hefyd yn llywio'r dyheadau ehangach ar gyfer dysgu gydol oes yng Nghymru, fel yr amlinellwyd yn y map ffordd wedi'i ddiweddaru yn 2023, *Ein Cenhadaeth Genedlaethol: safonau a dyheadau uchel i bawb*, sy'n cynnwys y nod fod "pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, i fod yn ddinesydd iach, sy'n ymgysylltu, sy'n fentrus ac sy'n foesegol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith." [37]

Mae canllawiau'r cwricwlwm yn cynnwys chwe maes dysgu a phrofiad (MDaPh), yn seiliedig ar "ddatganiadau statudol o'r hyn sy'n bwysig", sy'n darparu potensial ar gyfer dysgu rhyngddisgyblaethol a thraws ddisgyblaethol: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Llesiant; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg.[38] Yn ogystal â thri fframwaith sgiliau trawsgwricwlaidd (sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol), mae canllawiau'r cwricwlwm yn cyfeirio at themâu trawsbynciol i'w hystyried wrth ddylunio'r cwricwlwm, yn cynnwys Addysg Cydberthynas a

---

[35] Addysg yng Nghymru, Llywodraeth Cymru: *Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/30138/1/170926-education-in-wales-en-1_Redacted.pdf

[36] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#curriculum-design-and-the-four-purposes

[37] *Ein Cenhadaeth Genedlaethol: safonau uchel a dyheadau i bawb*, Llywodraeth Cymru 21 Mawrth 2023; https://www.gov.wales/our-national-mission-high-standards-and-aspirations-all-html cyrchwyd18 Rhagfyr 2023

[38] https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-datganiadau-or-hyn-syn-bwysig

Rhywioldeb (ACRh); Hawliau Dynol; Amrywiaeth; a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r themâu cyfannol hyn yn cefnogi'r pedwar diben, ac yn defnyddio agweddau ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Mae ACRh yn un o ofynion statudol y cwricwlwm a'i nod yw helpu i rymuso "dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth o'r ddwy ochr a pharch".[39] Mae hawliau dynol yn ymddangos yn y cod ADRh, ac yn y disgrifiadau dysgu ar gyfer MDaPh y Dyniaethau ac Iechyd a Llesiant. Yn ogystal â hyn, mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi bod angen i'r holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r cwricwlwm ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol plant dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

Mae'r ffocws ar gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn rhoi cyfle i ddatblygu addysg dinasyddiaeth fyd-eang ymhellach, gan alluogi dysgwyr i archwilio gwahanol safbwyntiau a defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth i nodi, gwerthfawrogi a deall cysylltiadau a rhyng-gysylltedd. Mae canllawiau'r cwricwlwm yn amlinellu y gall yr agwedd hon gynorthwyo "dysgwyr i ddatblygu dinasyddiaeth sy'n amlochrog, gan fyfyrio ar eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn pob cyd-destun a chydnabod yr amrywiaeth o fewn pob un".[40] Mae'r ffocws hwn ar y byd a'r lleol hefyd yn rhoi cyfle i gynaliadwyedd a'r nodau datblygu cynaliadwy gael eu hystyried. Mae'r cysyniad cynefin hefyd yn rhan o'r thema hon, y gellir ei ddefnyddio i gyfrannu at ymdeimlad cryf o berthyn a pherthyn cymunedol i ddysgwyr.[41]

Mae integreiddio ADCDF a phlant a hawliau dynol o fewn y cwricwlwm yn darparu sylfaen dda i ysgolion archwilio agweddau ar addysg heddwch.

Bydd yr is-benodau canlynol yn amlinellu cyd-destun addysg heddwch, a'r photensial ar ei gyfer, ar bob lefel addysgol yng Nghymru – Cynradd, Uwchradd, Addysg Bellach, Addysg Uwch, a Dysgu Gydol Oes.

## Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru

Roedd prosiect 'Cymru dros Heddwch' y WCIA a ariannwyd drwy Gronfa Treftadaeth y Loteri, a gynhaliwyd rhwng 2014 a 2018 fel rhan o'r digwyddiadau i nodi can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, yn cynnwys datblygu rhaglen beilot Cynllun Ysgolion Heddwch ar gyfer Cymru, i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o

---

[39] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/#addysg-cydberthynas-a-rhywioldeb:-canllawiau-statudol

[40] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/#local,-national-and-international-contexts

[41]Susan Chapman, Rosy Ellis, Gary Beauchamp, Lisa Siryf, David Stacey, Jane Waters-Davies, Adam Lewis, Catherine Jones, Merris Griffiths, Sammy Chapman, Rachel Wallis, Elizabeth Sheen, Tom Crick, Helen Lewis, Graham French & Stephen Atherton 'Nid yw fy llun i yng Nghymru': canfyddiadau disgyblion o gynefin (Perthyn) mewn datblygu cwricwlwm ysgolion cynradd yng Nghymru, Addysg 3-13, 51:8, 1214-1228, 2023 https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03004279.2023.2229861 Gweler hefyd *Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad terfynol* https://www.gov.wales/final-report-black-asian-and-minority-ethnic-communities-contributions-and-cynefin-new-curriculum

heddychwyr. Lansiwyd y cynllun peilot yn 2016 ac ers hynny mae wedi dod yn rhan o ddarpariaeth ddysgu fyd-eang WCIA ar gyfer ysgolion. Mae Academi Heddwch Cymru wedi cyfrannu at gyllido'r cynllun ers 2020.

Nod Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru yw cynorthwyo ysgolion sy'n ymgorffori ethos heddychlon yn weithredol yn ogystal â dysgu a gweithgareddau sy'n ymwneud â heddwch i'w bywydau bob dydd. Mae Ysgolion Heddwch yn gweithio tuag at fod yn lle:

- Mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- Mae yna ethos ysgol sy'n seiliedig ar gydweithredu, parchu gwahaniaeth a datrys problemau
- Mae heddwch yn llinyn cyffredin ym mywydau bob dydd dysgwyr - yn y modd y maent yn dysgu a byw gyda'i gilydd
- Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu straeon heddychwyr a myfyrio'n feirniadol arnynt a materion sy'n ymwneud â heddwch a chynaladwyedd - o Gymru a thu hwnt.
- Mae dysgwyr yn cael eu hannog i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.[42]

Sail ymchwil a datblygiad y cynllun oedd ymwybyddiaeth o natur dameidiog ac anffurfiol llawer o weithgareddau addysg heddwch;

> yr hyn rydych yn tueddu i'w cael dan ymbarél addysg heddwch, yw mentrau lle 'r oedd sefydliadau trydydd sector mwy na thebyg yn mynd i mewn i ysgolion a darparu agweddau gwahanol o addysg heddwch. Efallai y byddai pobl yn mynd i mewn a chyflwyno sesiwn ar ymwybyddiaeth ofalgar, wyddoch chi, i fwydo i heddwch mewnol [...] Ond mae'n cael ei gyflwyno'n allanol. Ac maent yn cyflwyno, yn amlwg, i garfan, oherwydd nid oed modd gwneud mwy na hynny ar un tro. Felly, wyddoch chi, mae'n hynod o werthfawr, ond mae yna gwestiynau o ran faint o effaith mae'n ei gael ar yr ysgol gyfan? (Aelod o Staff Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru)

Mae yna brosiectau ar raddfa lai sy'n hyrwyddo heddwch mewn ysgolion yng Nghymru, er enghraifft y prosiect Peace Mala a'r Prosiect Ysgolion Heddychlon Canolbarth Cymru.[43] Gwnaed ymdrechion parhaus i gael gwybodaeth gan Rwydwaith Ysgolion Cysylltiedig UNESCO (ASPnet) ynghylch ei bresenoldeb yng Nghymru, a'i waith mewn addysg heddwch ond ni chafwyd ymateb.

Mae prosiect Ysgolion Heddwch Cymru yn brosiect mwy datblygedig, gyda chyrhaeddiad cenedlaethol, sydd wedi creu dull gweithredu fframwaith i ysgolion fabwysiadu ac ymgorffori ac sy'n dilyn arferion gorau

---

[42] WCIA Sut i ddod yn Ysgol Heddwch, https://padlet.com/ejharries/ysgolion-heddwch-cymru-wales-peace-schools-uct30df9k5o0gmw6/wish/1823890587

[43] Peace Mala, https://www.peacemala.org.uk/, a'r Prosiect Ysgolion Heddychlon Canolbarth Cymru, https://addysgheddpeaceedu.org.uk/

sefydledig mewn addysg heddwch.[44] Agwedd allweddol ar Gynllun Ysgolion Heddwch Cymru yw ei fod yn hyrwyddo dull gweithredu ysgol gyfan o ymgorffori heddwch, sy'n cefnogi amgylchedd dysgu heddychlon a phrofiad uniongyrchol o ymarfer ymddygiadau a chymwyseddau heddychlon. Mae'n rhoi cyfle i gymryd agwedd gyfannol, yn unol ag arfer gorau mewn addysg dros heddwch, er mwyn hwyluso "effaith bendant ar fywyd yr ysgol - yn y ffordd y mae staff a disgyblion yn uniaethu â'i gilydd ac yn dysgu gyda'i gilydd". [45] Adroddwyd yn y gwerthusiad cychwynnol o'r cynllun mai canlyniad anfwriadol i'w groesawu oedd bod nifer o'r ysgolion sy'n rhan o'r peilot wedi ailedrych ar eu polisïau ymddygiad a gwrth-fwlio er mwyn hyrwyddo perthnasoedd diogel a pharchus, a ddaeth â manteision i lesiant a chymuned gyfan yr ysgol.[46] Roedd cyfranogiad disgyblion yn allweddol i'r gwaith hwn, ac mae agweddau ymddygiadol y dull gweithredu heddwch bellach wedi'u hymgorffori yn neilliannau awgrymedig y cynllun fel bod ysgolion yn gwybod am yr hyn y maent yn gweithio tuag ato ac yn gallu dangos tystiolaeth o sut mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant, dysgu a sgiliau disgyblion ac ar gymuned yr ysgol gyfan.[47] Mae'r dull gweithredu ysgol gyfan yn cynnwys cynorthwyo a chynnwys uwch reolwyr, yn cynnwys y llywodraethwyr, i sicrhau bod y dull heddwch wedi'i integreiddio'n llawn, yn hytrach na chael ei ystyried yn "ychydig o ychwanegiad" (Aelod Staff Ysgolion Heddwch Cymru). [48]Fel yr amlinellwyd mewn dogfen 'pecyn cymorth', yr ethos yw: "fod pawb yn eich ysgol yn ymwybodol eich bod yn Ysgol Heddwch ac yn gwybod beth mae hyn yn ei olygu o ran sut mae pobl yn trin ei gilydd, beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol, a datblygu ffyrdd newydd o ddysgu a meddwl".

Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i fod yn fframwaith hyblyg i gasglu a chydnabod dulliau gweithredu a gweithgareddau y gall ysgol fod eisoes yn eu gwneud - er enghraifft, defnyddio dull gweithredu wedi'i lywio gan hawliau dynol, yr achrediad Eco-Sgolion, defnyddio arferion adferol neu weithio ar ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae'n galluogi ysgolion i ddatblygu eu gweledigaeth a'u cynllun eu hunain i weddu orau i'w anghenion a'u cymuned, ac mae cyfranogwyr yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion, gyda help a chyngor ymarferol ac ystod o adnoddau, yn ogystal â manylion mentrau eraill sy'n berthnasol i addysg heddwch.[49] Mae tair lefel i statws Ysgol Heddwch, sydd wedi 'u crynhoi yn y ffigwr isod:

*Ffigwr 4:* Lefelau achredu Ysgolion Heddwch Cymru.[50]

[44] Systemic UPscaling of Peace Education pRactices (UPPER), *Collection Of Good Practice* https://eiplab.eu/wp-content/uploads/2019/11/UPPER.IO1_Report-on-the-collection-of-good-practices.pdf, cyrchwyd 28 Ebrill 2024
[45] WCIA Sut i ddod yn Ysgol Heddwch, Ysgolion Heddwch Cymru https://padlet.com/ejharries/ysgolion-heddwch-cymru-wales-peace-schools-uct30df9k5o0gmw6/wish/1823890587
[46] WCIA, Cofnod Prosiect Cymru dros Heddwch 2014-19, https://www.wcia.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Project-Record-Wales-for-Peace-2014-19-Final-Draft-Nov-2019.pdf Cyrchwyd 8 Rhagfyr, 2023
[47] Gweler WCIA 'Sut i ddod yn Ysgol Heddwch' Cynllun Ysgolion heddwch Cymru a 'Cynllun Gweithredu Ysgolion Heddwch Cymru'
[48] ibid
[49] WCIA, Mentrau Cynorthwyo Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru https://padlet.com/ejharries/ysgolion-heddwch-cymru-wales-peace-schools-uct30df9k5o0gmw6/wish/1823903600 cyrchwyd 10 Ionawr 2024
[50] WCIA, Sut i ddod yn Ysgol Heddwch. Mae dadansoddiad manylach o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar bob lefel i'w gweld yn 'Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru - Lefelau, Gofynion a Chynnydd' https://padlet.com/ejharries/ysgolion-heddwch-cymru-wales-peace-schools-uct30df9k5o0gmw6/wish/1823894285

Y nod ar lefel tri yw bod addysg heddwch wedi'i "ymgorffori'n dda yng nghwricwlwm yr ysgol, ond bod pobl ifanc hefyd yn ymgymryd â phrosiectau ac yn cymryd perchnogaeth ohonynt. Mae'n ymwneud â'u grymuso i wneud pethau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn" (Aelod o Staff Ysgolion Heddwch Cymru) Gall ysgolion ddewis pa lefel i'w hamlygu pan maent yn ymuno â'r cynllun a gellir mynd ymlaen i lefel uwch yn eu hamser eu hunain. I gadw eu hachrediad, mae angen i ysgolion ail gyflwyno cais ar ôl tair blynedd.

## Perthnasedd o fewn y Cwricwlwm i Gymru

Roedd cyflwyno Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru'n cyd-daro â datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, ac roedd gofynion y cwricwlwm yn llywio dyluniad y fframwaith. Mae trosolwg o'r cwricwlwm ar dudalen 17. Mae'r newid i'r dull gweithredu pedwar diben ac yn benodol y nod o gefnogi dysgwyr i ddod yn "ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd" yn dod â llawer o gyfleoedd ar gyfer addysg dinasyddiaeth fyd-eang ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy, yn ogystal â thynnu sylw at hawliau dynol. Mae pwyslais y cwricwlwm ar ddulliau gweithredu trawsgwricwlaidd a rhyngddisgyblaethol hefyd yn rhoi cyfle i archwilio materion a phynciau sy'n berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang, ac mae'n darparu lle i addysg dros heddwch gael ei integreiddio. Fel y nodwyd gan aelod o staff Ysgolion Heddwch mewn cyfweliad, "os ydych chi'n gwneud addysg heddwch yn iawn yn eich ysgol, byddech chi'n ticio'r holl [ddiben] ddinasyddion gwybodus moesegol".

Mapiodd Ysgolion Heddwch Cymru addysg heddwch i'r cwricwlwm newydd mewn papur a gyhoeddwyd yn 2022.[51] Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o sut mae addysg heddwch yn cyfateb i'r 'Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig' ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad (MDaPh), a dolenni at adnoddau a mentrau perthnasol. Mae'r ddogfen ar gael o dudalennau Dysgu Byd-eang gwefan WCIA, ond ar hyn o bryd nid yw wedi'i chysylltu â thudalen y Cynllun Ysgolion Heddwch, a allai o bosibl gyfyngu ar ei gwelededd a'i hygyrchedd i gynulleidfa sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am sut y gellid gweithredu addysg heddwch yn eu hysgol. Byddaf yn dychwelyd i ystyried gwelededd a hyrwyddo'r cynllun yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Mae mapio'r cwricwlwm yn gyflwyniad defnyddiol i athrawon archwilio'r potensial ar gyfer addysg dros heddwch, ond byddai mapio mwy manwl, gydag enghreifftiau o weithgareddau, yn debygol o gryfhau'r achos dros berthnasedd addysg heddwch i'r cwricwlwm. Er bod y wefan yn cynnwys rhai astudiaethau achos, mae'r rhain y tu ôl i ddolenni i ddogfennau eraill (megis manylion yr ysgol heddwch a Gwobrau Heddychwr Ifanc), yn hytrach na bod yn weladwy ar unwaith. Mae gan y cynllun wybodaeth am lawer o enghreifftiau o ddulliau gweithredu arloesol, fel y nodwyd gan aelod staff y Cynllun Ysgolion Heddwch:

> Mae [Addysg heddwch] yn cynnig ei hun yn fawr iawn i wneud pethau o fewn y dyniaethau, er enghraifft, lle gallwch wneud pethau ar draws hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol. Ac mae gennym enghreifftiau da o hynny. Felly Dyffryn Aman, fe wnaethant gwricwlwm heddwch cyfan gyda blwyddyn wyth, a oedd yn ffitio ar draws y dyniaethau [...] mae hynny'n fantais wirioneddol

[51] Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru, WCIA, Addysg Heddwch wedi'i Fapio i'r Cwricwlwm Newydd, 2022 https://www.wcia.org.uk/wp-content/uploads/2022/05/Peace-Education-mapped-to-the-new-curriculum.pdf cyrchwyd 20 Tachwedd 2023

> gyda'r cwricwlwm newydd mewn gwirionedd. (Cyfweliad gydag aelod o staff Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru).

Agweddau ar y cwricwlwm sy'n cael eu hanwybyddu yn y ddogfen yw'r canllawiau statudol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)[52] a'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh).[53] Mae CGM wedi'i gynnwys o fewn ACRh y Dyniaethau, ac mae'r symud i ffwrdd o'r label 'addysg grefyddol' yn adlewyrchu'r cwmpas estynedig ac yn sicrhau ei fod yn amlwg - gan gynnwys o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol – bod CGM yn cynnwys safbwyntiau athronyddol anghrefyddol.[54] Gallai'r dull gweithredu ehangach ddarparu mwy o gyfleoedd i ystyried cysyniadau heddwch a gwrthdaro, ynghyd ag agweddau eraill ar ddinasyddiaeth fyd-eang.  Mae canllawiau cwricwlwm Llywodraeth Cymru yn disgrifio ACRh fel un sydd â "rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg dysgwyr", gan chwarae "rôl hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan".[55] Mae'r canllaw yn amlinellu mai:

> Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch.[56]

Mae'r ffocws ar berthnasoedd rhyngbersonol yn cyd-fynd yn agos â'r dull gweithredu addysg heddwch, ac mae adnoddau a mentrau presennol o fewn addysg heddwch, yn cynnwys y rhai a ddarperir gan Gynllun Ysgolion Heddwch Cymru sydd eisoes ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a fyddai'n gallu cefnogi ysgolion i gyflawni'r agwedd hon ar ACRh yn dda, er enghraifft cefnogi dealltwriaeth o hawliau, tegwch, parch at ei gilydd a datrys gwrthdaro.[57] Yn ogystal â hyn, mae'r ethos ysgol gyfan yn werth a rennir gan addysg heddwch a'r cynllun. Byddai hyrwyddo'r agwedd hon ar berthnasedd Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru yn fuddiol, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o addysg heddwch a chefnogi ysgolion yn well i alluogi dysgwyr i feithrin a chynnal perthynas dda â'u cyfoedion, eu hathrawon, eu teuluoedd a'u cymunedau. Byddai hefyd yn cyfrannu at gynyddu dealltwriaeth o sut y gallai'r dull gweithredu addysg heddwch gynorthwyo ysgolion i

[52] Dylunio eich Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance cyrchwyd 12 Ionawr 2024
[53] Dylunio eich Cwricwlwm, Themâu Trawsbynciol, ACRh, Llywodraeth Cymru https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/ cyrchwyd 12 Ionawr 2024
[54] Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth, Llywodraeth Cymru https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#religion,-values-and-ethics cyrchwyd 12 Ionawr 2024
[55] Dylunio eich Cwricwlwm, Themâu Trawsbynciol, ACRh, Llywodraeth Cymru
[56] Llywodraeth Cymru. ibid
[57] Mae'r Arwyddbyst ar gyfer Prosiect Dinasyddiaeth Fyd-eang, sy'n cael eu cynnal gan Ganolfannau Addysg Datblygu yr Alban, yn rhestru nifer o adnoddau a phecynnau gwybodaeth perthnasol sy'n cefnogi Cwricwlwm Rhagoriaeth a Dinasyddiaeth Fyd-eang yr Alban; www.signpostsglobalcitizenship.org/

gyflawni eu cyfrifoldebau o fewn y fframwaith statudol ar ymgorffori dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.[58]

## Cwmpas

Ar adeg ei ysgrifennu, mae gan Gynllun Ysgolion Heddwch Cymru 20 o ysgolion gweithredol (12 cynradd, 8 uwchradd) ledled Cymru, gyda 35 ysgol arall sydd naill ai wedi cymryd rhan neu wedi mynegi diddordeb o'r blaen (gohebiaeth ag aelod o staff y Cynllun Ysgolion Heddwch). Mae'r gynhadledd ysgolion heddwch flynyddol, a gynhelir ers 2014, yn rhoi cyfle i ysgolion sydd â diddordeb mewn addysg heddwch rannu eu gweithgareddau, cymryd rhan mewn gweithdai, a chwrdd â dysgwyr eraill. Mae'r gynhadledd yn hyrwyddo'r cynllun a'i effaith ac mae'n achlysur defnyddiol i ymgysylltu ac ail-ymgysylltu â chyfranogwyr y cynllun. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae lleoliad y Senedd hefyd wedi darparu cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth wleidyddol o werth addysg heddwch. Croesawodd y gynhadledd ddiweddaraf, a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023, dros 100 o blant ac athrawon o ddeg ysgol, ac roedd yn cynnwys cyflwyniadau gan Lysgenhadon Heddwch Ifanc (LlIH), a rannodd eu profiad o fynychu gwersylloedd llysgenhadon heddwch yn Ewrop. Mae'r rhaglen LlIH yn brofiad gwirfoddol sy'n agored i bobl ifanc rhwng 14 a 21 oed sy'n byw yng Nghymru. Mae'n darparu hyfforddiant, mentora a chyllid prosiect i arfogi'r llysgenhadon â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddod yn arweinwyr mewn adeiladu heddwch, ac mae'n darparu cyfleoedd i gysylltu ag adeiladwyr heddwch ifanc ledled y byd. Mae'n cael ei gynnal gan WCIA, ac mae'n cael ei gefnogi gan staff y Cynllun Ysgolion Heddwch.

Wrth greu cysylltiadau yng Nghymru, mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch hefyd wedi datblygu cydweithrediadau â phartneriaid Ewropeaidd, drwy brosiect Erasmus+. Wedi'i ysgogi gan gyd-destun pryder am drais mewn ysgolion a phegynu trafodaeth gyhoeddus, roedd y prosiect yn cynnwys partneriaid yng Nghymru, Rwmania, Slofenia a Thwrci, a'i nod oedd rhannu arfer gorau "ar draws gwahanol gyd-destunau a diwylliannau" a "chasglu corff cryf o dystiolaeth ac adnoddau ategol y gallai ysgolion eu defnyddio'n ehangach".[59] Er bod y pandemig coronafeirws wedi effeithio ar y cydweithio, roedd y prosiect yn llwyddiannus, gyda chyfranogwyr o Slofenia yn disgrifio'r profiad fel "taith drawsnewidiol".[60] Roedd gan y prosiect ffocws cryf ar allbynnau, gan fod hyn yn agwedd a alluogodd cyllid Erasmus: "roedd gennym allbynnau penodol yr oeddem am eu cyflawni yn y prosiect hwnnw, a oedd yn ymwneud â phapurau polisi a phecynnau cymorth, hyfforddiant athrawon" (Aelod o Staff y Cynllun Ysgolion Heddwch). O ganlyniad i'r dull gweithredu hwn, yn ogystal â sylfaen dystiolaeth o fanteision addysg heddwch wrth ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau sy'n galluogi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion lleol a byd-eang cadarnhaol, beirniadol a chreadigol,[61] mae ystod o adnoddau ategol wedi'u datblygu, wedi'u llywio gan y cydweithio. Mae'r

[58] Llywodraeth Cymru, https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/framework-on-embedding-a-whole-school-approach-to-emotional-and-mental-well-being.pdf
[59] WCIA 'Sut i Ddod yn Ysgol Heddwch' Pecyn Cymorth i Ymarferwyr' (heb ei gyhoeddi) Wedi'i ddatblygu fel rhan o brosiect Erasmus+ 2020-23,
[60] WCIA 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' CMRhC
[61] WCIA 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' CMRhC

adnoddau'n cynnwys pecyn cymorth ac adnoddau hyfforddi athrawon, y gellir eu defnyddio i gefnogi ysgolion i roi dulliau gweithredu heddwch ar waith yn effeithiol ar lefelau strategol a gweithredol.

Er gwaethaf effaith gadarnhaol Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru - a fydd yn cael ei archwilio isod - mae'n ymddangos bod ymwybyddiaeth o addysg heddwch a'r cynllun ei hun yn eithaf cyfyngedig o fewn sector addysg Cymru. Mae hyn wedi dod i'r amlwg wrth ymchwilio i'r adroddiad hwn, wrth i ymdrechion cychwynnol i bennu dealltwriaeth sylfaenol o addysg heddwch ddatgelu nad oedd llawer o wybodaeth am y dull gweithredu, er gwaethaf ymwybyddiaeth o addysg dinasyddiaeth fyd-eang. Yn ogystal â hyn, mae staff y Cynllun Ysgolion Heddwch wedi rhannu'r heriau y maent wedi'u hwynebu wrth olrhain cynnydd ysgolion yn y cynllun, ac o gadw mewn cysylltiad â'r rhai sydd wedi cymryd rhan, neu sydd wedi mynegi diddordeb yng ngweithgareddau'r cynllun:

> Yr hyn sy'n wirioneddol anodd yw nodi ble mae [ysgolion] [yn y broses], oherwydd mae gen i ysgolion rwy'n gwybod ble maen nhw oherwydd eu bod yn cadw mewn cysylltiad â ni. Ond mae yna ysgolion eraill, ond dwi ddim yn gwybod, ydy'r aelod yna o staff dal yno? Mae cadw trac ar ble maen nhw mewn gwirionedd yn anodd iawn. Ac yna mae'n rhaid i chi ofyn y cwestiwn i chi'ch hun, wel, mewn ffordd, a yw'n bwysig? Fe hoffech chi feddwl, os ydyn nhw, os ydyn nhw'n ei chael hi'n anodd, y bydden nhw'n cysylltu â chi a dweud, wyddoch chi, nid wyf yn hollol siŵr beth i'w wneud nesaf. A oes rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei wneud i egluro'r broses? Ei gwneud hi'n haws iddyn nhw? Wn i ddim. (Cyfweliad gydag aelod o staff Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru).

Mae staff y cynllun yn ymwybodol o'r pwysau llwyth gwaith sy'n wynebu staff addysgu mewn ysgolion, ac awgrymwyd fod ysgolion yn ymddangos yn "fwy gofalus" ar ôl pandemig y coronafeirws ynghylch gweithgareddau ychwanegol (Cyfweliad ag aelod o staff Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru). Mae'r tîm Ysgolion Heddwch wedi rhoi cynnig ar wahanol ddulliau gweithredu o ail/ymgysylltu ag ysgolion yn eu cymuned - yn fwyaf diweddar fe wnaethant ddefnyddio ffurflen arolwg i ysgolion adrodd am eu cynnydd a'u gweithgareddau diweddar, lle gwelwyd rhai ysgolion sy'n ymgysylltu llai yn ymateb. Maent hefyd wedi defnyddio e-bost i hyrwyddo cyfleoedd ac adnoddau i geisio cefnogi ysgolion nad ydynt efallai'n gwybod sut i ddatblygu eu gwaith. Rhywbeth a allai gryfhau'r ymdrechion hyn yw cylchlythyr rheolaidd ar gyfer cymuned yr ysgolion heddwch, sy'n cynnwys newyddion ac adnoddau o'r cynllun ond hefyd gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan. Gallai fod potensial hefyd i greu cyfleoedd i'r cysylltiadau arweiniol gyfarfod â'i gilydd mewn sesiynau ar-lein, i rannu eu profiadau a chyfnewid gwybodaeth. Mae nifer o ysgolion gweithgar yn cymryd rhan amlwg, a gallai'r sesiynau hyn fod yn fodd o fanteisio ar y brwdfrydedd hwn i gefnogi ac annog ysgolion eraill yn y gymuned. Fodd bynnag, mae mentrau o'r fath yn gofyn am allu staff i drefnu, hyrwyddo a hwyluso sesiynau er mwyn iddynt fod yn effeithiol.

Gellid ystyried comisiynu asedau fideo i gasglu enghreifftiau o'r hyn y mae ysgolion heddwch yn ei wneud, a fyddai'n helpu i arddangos y potensial a hyrwyddo'r cynllun ac addysg heddwch yn ehangach. Byddai hefyd yn werth archwilio cyfleoedd hyrwyddo eraill, yn cynnwys cyflwyno i bodlediadau sefydledig, er enghraifft

'Emma and Tom Talk Teaching' sydd â chynulleidfa ymarferwyr addysg, i rannu ymhellach straeon am effaith y cynllun.[62] Byddai'n ddoeth paratoi ar gyfer unrhyw weithgareddau hyrwyddo i gynnwys cynllunio ar gyfer sut i reoli cyfranogiad effeithiol mwy o ysgolion yn y cynllun, ac i ystyried unrhyw staff ychwanegol ac adnoddau ariannol sydd eu hangen i gyflawni hyn.

## Effaith

Mae datblygu fframwaith i alluogi ysgolion i ymgorffori ac ymarfer dull gweithredu addysg heddwch wedi golygu bod y dull gweithredu yn cael ei ddeall a'i integreiddio'n well yn yr ysgolion sydd wedi ymgysylltu â'r cynllun. Mae hon yn sylfaen dda ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol ac ar gyfer dangos manteision y cynllun. Mae'n amlwg o sylwadau'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun bod y Cynllun Ysgolion Heddwch yn cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd. Mynegodd athro mewn ysgol uwchradd sydd wedi derbyn statws Ysgol Heddwch lefel 3 fod:

> Disgyblion wedi dod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Mae wedi agor cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn sgwrs ystyrlon gydag athrawon a gofyn cwestiynau am sefyllfaoedd bywyd go iawn. Fel athro, rwyf wedi bod yn cyflwyno gwersi ar heddwch ac mae wedi bod yn gyfle gwych i ddatblygu fy nealltwriaeth. (Athro, Ysgol Uwchradd A, Gohebiaeth)

Mae athrawon hefyd wedi gwneud sylwadau ar yr effaith ar amgylchedd yr ysgol ac ymddygiadau cadarnhaol. Nododd gwerthusiad o brofiad ysgol gynradd a gymerodd ran ym Mhrosiect Dod yn Ysgol Heddwch Erasmus+ fod 'disgyblion a staff yn teimlo'n fwy diogel, yn fwy hyderus wrth siarad ac yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi'n well' o ganlyniad i'r rhaglen.[63] Nododd athro fod:

> dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn gyfartal yn yr ysgol. Bod dysgwyr yn teimlo y gallant ddod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o ddelio â gwrthdaro, a bod gwrthdaro yn mynd i fod yn rhan o'u bywydau. Mae'r prosiect wedi cefnogi gwytnwch ac agwedd ein dysgwyr tuag at wrthdaro sydd ynddo'i hun wedi helpu ein dysgwyr i fagu hyder a sbarduno chwilfrydedd a thrafodaethau yn y gymuned ehangach.[64]

Rhannodd dysgwr mewn ysgol uwchradd a gymerodd ran yn y prosiect Erasmus+ ei fod wedi

> magu peth hyder wrth fynegi barn, ac [wedi ffurfio] cyfeillgarwch oes. Rwy'n credu y dylai'r prosiect ysgolion heddwch fod yn orfodol wrth ddysgu mewn ysgolion oherwydd ein bod yn cael dysgu am ddiwylliannau eraill ac mae'n rhoi meddylfryd mwy heddychlon i chi - nawr ac ar gyfer y dyfodol. [65]

[62] Emma and Tom Talk Teaching, [https://educators.wales/Talk-Teaching](https://educators.wales/Talk-Teaching)nd
[63] WCIA 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' CMRhC
[64] Dywedodd athro ysgol gynradd yn WCIA 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' CMRhC
[65] Dywedodd athro ysgol uwchradd yn WCIA 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' CMRhC

Mae mesur effaith hirdymor y cynllun y tu hwnt i addysg yn anodd, ond mae'n ymddangos bod dysgwyr yn deall y dull gweithredu heddwch fel meddylfryd neu ymddygiad, a rhywbeth y byddant yn ei ddefnyddio trwy gydol eu hoes.

Mae gwerthusiad o'r prosiect Erasmus+ hefyd yn amlinellu bod cyfranogiad wedi cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth staff ysgolion, yn ogystal â'u hyder yn eu gallu i fod yn fodelau rôl cadarnhaol o heddwch:

> Y canlyniad mwyaf cadarnhaol o'n holiaduron staff yw'r effaith o ran strategaethau ar gyfer delio â gwrthdaro a staff fel modelau rôl cadarnhaol o Heddwch. Roedd cynnydd o 10% yng ngwybodaeth a strategaethau staff a chafwyd llawer o fudd wrth i'n dysgwyr a'n staff greu'r rhain i weddu i ethos ein hysgol ein hunain. O ran modelau rôl, mae gwelliant o 40% yn yr holiadur gwaelodlin i 90% yn 2023 lle'r oedd staff yn teimlo'n hyderus fel modelau rôl o Heddwch. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer meithrin y dull gweithredu hwnnw a sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyflwyno ar draws yr ysgol.[66]

Mae tystiolaeth hefyd bod rhieni'n gweld manteision y cynllun ac yn gallu gweld "y cysylltiad rhwng addysg heddwch a'i effaith ar sicrhau heddwch yn y gymuned a'r byd ehangach"yn well. [67] Gallai'r dull gweithredu fod yn ychwanegiad gwerthfawr i ysgolion ei ystyried yn eu gweithgareddau i fod yn ysgolion bro.[68]

Byddai rhannu straeon yr effeithiau cadarnhaol hyn ar wefan y Cynllun Ysgolion Heddwch, yn ogystal â'u cofnodi mewn dogfennau gwerthuso ac adolygu, yn helpu i ddangos y manteision i ddysgwyr, athrawon, ysgolion a'u cymunedau. Byddai hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun ar draws gwahanol gynulleidfaoedd - yn cynnwys llunwyr polisi a dylanwadwyr – a chyfrannu at ddyfnhau'r ddealltwriaeth o addysg heddwch ac o bosibl gynyddu cefnogaeth a chyllid i ddatblygu'r cynllun ymhellach.

## Adolygu'r cyfleoedd a'r heriau:

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru a chydnabyddiaeth gysylltiedig y llywodraeth a'r sector o bwysigrwydd llesiant dysgwyr yn darparu cyfleoedd cryf ar gyfer addysg heddwch y mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch mewn sefyllfa dda i fanteisio arnynt. Mae gan y cynllun enw da, ac mae ei integreiddio o fewn rhaglen ddysgu fyd-eang WCIA yn gadarnhaol, gan ddod â rhwydwaith cryf a statws cydnabyddedig. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i sicrhau cynaliadwyedd y cynllun, ei gapasiti staffio, a'i ddyfodol tymor hwy.

Ar ôl i brosiect Cymru dros Heddwch ddod i ben, llwyddodd y rhaglen i sicrhau cyllid Erasmus+ i ffurfio cydweithrediadau rhyngwladol, mireinio'r cynllun, a datblygu allbynnau. Mae'r prosiect wedi dod i ben, a chan nad oes gan y DU fynediad at Erasmus mwyach, mae opsiynau cyllido posibl yn y dyfodol yn aneglur. Gall fod lle i ddatblygu prosiectau yn y dyfodol ar gyfer ffrwd Llwybr 2 Taith, sy'n cynorthwyo partneriaethau rhyngwladol a chydweithio strategol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu arferion arloesol mewn

---

[66] Dywedodd athro ysgol gynradd yn WCIA 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' CMRhC
[67] WCIA 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' CMRhC
[68] https://www.llyw.cymru/ysgolion-bro-htmll, cyrchwyd 12 Ionawr 2024

addysg drwy greu allbwn prosiect ar gyfer lledaenu.[69] Er bod cyllid prosiect yn galluogi cyflawni gweithgareddau, mae'n debygol y byddai'r cynllun yn elwa o fwy o gyllid craidd. Ystyriwyd ffynonellau refeniw posibl yn fy sgwrs â staff y Cynllun Ysgolion Heddwch:

> Rwy'n gwybod bod pethau'n dynn, ond byddai mor wych cael ychydig o gyllid gan Lywodraeth Cymru. A, neu i feddwl, wel, beth fyddai ysgolion yn ei dalu am hyn? A dweud y gwir, dyna 'r cyfyng-gyngor, mewn gwirionedd. Ar hyn o bryd, mae'n rhad ac am ddim, maen nhw'n cofrestru a does dim rhaid iddyn nhw dalu unrhyw beth, ond wyddoch chi, sut ydych chi'n gwneud rhywbeth fel yna yn gynaliadwy? Mae'n gwestiwn mawr, mewn gwirionedd. (Aelod o staff Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru).

Mae modelau amrywiol o ffioedd a chyllid ar gyfer cynlluniau achredu ysgolion. Mae gan achrediad Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF gyfradd ffioedd aelodaeth flynyddol o £2 y disgybl (£1.25 ar gyfer ysgolion gwobr Aur), wedi'i gapio ar £1,500 (£1,250 ar gyfer ysgolion Aur), ac isafswm ffi o £100. Mae hwn yn gynllun mawr ei glod, sy'n cael ei gynnal gan Bwyllgor UNICEF y DU, ac mae'n gallu codi premiwm am ei gynnig oherwydd statws UNICEF. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth yr Alban yn talu'r ffioedd ar gyfer ysgolion yn yr Alban sy'n cymryd rhan yn y cynllun, fel y mae rhai awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Dinas Caerdydd. Mae cynllun Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus yn rhad ac am ddim i gyfranogwyr, gan fod y rhaglen wedi derbyn cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru; yn Lloegr, mae'r cynllun Eco-Sgolion yn codi ffi flynyddol o £200. Y fantais sydd gan y ddau gynllun hyn yw enw da iawn a lefel uchel o barch a chydnabyddiaeth. Ar hyn o bryd, mae'n debyg y byddai'n anodd i Gynllun Ysgolion Heddwch Cymru gyflwyno ffi aelodaeth ar lefel sy'n briodol i dalu costau, gan fod cydnabyddiaeth o'r cynllun yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, mae'n debygol y byddai gweinyddu ffioedd casglu yn ychwanegu costau. Yn hytrach, byddai unrhyw ffi yn gweithredu fel ymrwymiad gan ysgolion i fod yn gyfranogwyr gweithredol, ac i ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol heddwch. Gellid archwilio cyllid gan ymddiriedolaethau elusennol, gan y gellir dangos tystiolaeth o agweddau addysgol a llesiant y cynllun ac maent yn gweddu'n dda i flaenoriaethau darpar roddwyr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, er gwaethaf y pwysau ar gyllid cyhoeddus, mae'n ymddangos mai cyflwyno'r achos dros gyllid penodol gan y llywodraeth ar gyfer y cynllun yw'r ffrwd gyllido fwyaf ymarferol, o bosibl trwy ymgorffori cyfran uwch o gostau gweithgareddau yng nghytundeb cyllido Academi Heddwch Cymru. Ar hyn o bryd mae Academi Heddwch yn darparu rhywfaint o gyllid blynyddol ar gyfer y cynllun o'i grant, ond byddai trefniant ariannu tymor hwy yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i gynllunio a darparu gweithgareddau, a llwyfan i fynd ar drywydd ceisiadau i ymddiriedolaethau elusennol.

Gweithgaredd ychwanegol fyddai'n cryfhau'r cynllun ymhellach - ac yn adeiladu momentwm ar gyfer cynyddu ei welededd a gwerthfawrogiad o'i berthnasedd - yw datblygu elfen rhwydwaith y rhaglen ysgolion. Mae yna Rwydwaith Addysg Heddwch ledled y DU, y mae WCIA a Chynllun Ysgolion Heddwch Cymru yn aelodau ohono. Er bod aelodaeth o'r rhwydwaith yn agored i bawb sy'n rhannu ei werthoedd ac

[69] https://www.taith.wales/about/what-we-do/, cyrchwyd 15 Ionawr 2024

sy'n ymwneud ag addysg heddwch, mae'n ymddangos bod ei ffocws yn fwy ar drefniadaeth y trydydd sector sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi addysg heddwch.[70] Fodd bynnag, mae'r rhwydwaith yn cynnal sesiynau rhannu sgiliau rheolaidd i ymarferwyr, yn cynnwys athrawon ac yn darparu ystod o adnoddau, gan gynnwys pecyn 'Addysgu Heddwch', yn Gymraeg a Saesneg, wedi'i anelu at ddysgwyr ysgolion cynradd sy'n cynnwys wyth gwasanaeth ar thema heddwch, sydd ar gael ar Hwb. Byddai gweithio i greu rhwydwaith pwrpasol ar gyfer addysg heddwch mewn cyd-destun Cymreig, darparu cyfleoedd i ymarferwyr gyfarfod a chyfnewid gwybodaeth a rhannu eu profiadau, yn helpu i gefnogi ysgolion ar eu taith addysg heddwch. Mae rhywfaint o ystyriaeth eisoes wedi'i rhoi i ddatblygu llysgenhadon heddwch lleol, a fyddai â rôl yn datblygu a chefnogi clystyrau o ysgolion heddwch ledled Cymru, ond byddai angen cyllid pellach i ryddhau athrawon i ymgymryd â'r gweithgaredd hwn, a gellid ei fframio fel cyfle datblygu proffesiynol.

Mae gan Gynllun Ysgolion Heddwch Cymru lawer i adeiladu arno ac mae'r datblygiadau diweddar mewn polisi addysgol yng Nghymru, yn cynnwys y cwricwlwm newydd yn enwedig a'i bwyslais ar ddinasyddiaeth egwyddorol a gwybodus, a chydnabyddiaeth ehangach o bwysigrwydd dysgu llesiant, wedi cyfrannu at amgylchedd a allai fod yn ffafriol i'w ehangu mewn ffordd gynaliadwy ac ailadroddol. Dylid nodi bod adroddiad diweddar gan UNSECO wedi amlygu diffyg tystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd addysg heddwch ar raddfa, ac mae hyn yn cydberthyn â'r ffaith mai ychydig o raglenni systematig, hirdymor sydd wedi bod i'w hastudio a lefel gymharol isel o gyllid i gefnogi'r ymchwil addysgol angenrheidiol.[71] Byddai'n briodol ystyried cychwyn gwerthuso annibynnol ac ymchwil addysgol i gefnogi a llywio unrhyw gynnydd yn y Cynllun Ysgolion Heddwch yn y dyfodol, gan y byddai astudiaethau o'r fath yn gwneud cyfraniad pwysig i'r sylfaen dystiolaeth fyd-eang.

## Profiad Ysgol Heddwch Ysgol Gynradd

I ddysgu mwy am brofiad ysgolion ac athrawon sydd wedi mabwysiadu dulliau addysg heddwch, cafodd athro o ysgol gynradd a gafodd statws ysgol heddwch lefel 2 yn 2021 ei gyfweld. Ysgogodd yr athro gysylltiad ei ysgol â chynllun Ysgolion Heddwch Cymru ac mae'n parhau i fod yn brif gyswllt.

Mae'r ysgol gynradd yn Ysgol Parchu Hawliau achrededig UNICEF. Mewn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, mae hawliau plant yn cael eu hyrwyddo a'u gwireddu, mae oedolion a phlant yn gweithio tuag at y nod hwn gyda'i gilydd. Mae pedwar maes effaith allweddol i blant - eu llesiant, cyfranogiad, eu perthnasoedd a'u hunan-barch – sy'n cyfrannu at wneud gwahaniaeth i'r gymuned ehangach.[72] Roedd y dull hwn yn cael ei ystyried yn ddull trosfwaol ar gyfer yr ysgol a oedd yn

[70] https://www.peace-education.org.uk/home, cyrchwyd 12 Ionawr 2024
[71] UNESCO, *Peace education in the 21st century: an essential strategy for lasting peace,* t 15
[72] UNICEF UK, What is a Rights Respecting School? https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/the-rrsa/what-is-a-rights-respecting-school/ Cyrchwyd 6 Mai 2024

> dal popeth ynghyd. Cyn belled â'n bod ni'n edrych, wyddoch chi, ar sut y gallwn wella'r plant, eu dealltwriaeth o'u hawliau a'u cadw'n ddiogel, gall unrhyw beth ffitio o dan hynny. Ond dyna yw grym ein gwneud penderfyniadau hefyd. (Athro Ysgol Gynradd YH)

Mae'r ysgol wedi gweithio gyda phlant, rhieni a staff i ddatblygu ugain o werthoedd craidd y mae dysgwyr yn eu harchwilio drwy gydol y flwyddyn ysgol – mae heddwch yn cael ei gynnwys fel un o'r gwerthoedd. [73] Mae gwefan yr ysgol yn amlinellu "Mae gwerthoedd ein hysgol wrth wraidd popeth a wnawn. Maen nhw'n sail i'n haddysgu a'n dysgu ac yn darparu amgylchedd sy'n paratoi ein disgyblion fel dinasyddion hyderus, hapus".[74] Dywedodd yr athro eu bod "ddim yn gweld [yr ysgol] fel ysgol heddwch. Rwy'n ein gweld ni fel ysgol sy'n dysgu'r hawl i barch yn yr ysgol, ac un o'r llinynnau hynny yw heddwch". Nid yw'r ysgol yn trin heddwch fel pwnc 'annibynnol', ond yn hytrach mae'n integreiddio addysg heddwch i'w hegwyddorion ehangach: "Nid yw'n fater o - hwn yw ein pwnc heddwch, neu dyma beth rydyn ni'n ei wneud. Ydyn, rydyn ni'n dathlu rhai o'r dyddiau rhyngwladol, ond mewn gwirionedd, ym, nid dyna sut rydyn ni'n ei weld" (Athro Ysgol Gynradd YH). Mae dull hawliau a pharch yr ysgol wedi'i seilio ar "awydd di-ildio" i sicrhau llesiant a dealltwriaeth, i gefnogi plant i fod yn "nhw eu hunain go iawn", a "chael y gorau ohonynt" (Athro Cynradd YH). Mae gan yr ysgol ddull ysgol gyfan gref o ymdrin ag iechyd meddwl ac mae'n defnyddio rhaglen ymwybyddiaeth ofalgar Paws B i gefnogi dysgwyr i reoli perthnasoedd, mynd i'r afael ag anawsterau, gwella canolbwyntio, a'u helpu i hunanreoli eu hymddygiad.[75] Mae dull yr ysgol yn cael ei lywio gan ymwybyddiaeth weithredol o'r heriau sy'n wynebu eu dysgwyr a'u teuluoedd, gyda'r ysgol yn "edrych yn fwy ar yr ardal leol iawn a [gofyn] mewn gwirionedd beth sydd ei angen ar ein plant?" (Athro Cynradd YH). Mae dealltwriaeth o rôl yr ysgol fel lle diogel o berthyn i'w dysgwyr:

> [U]n o'r anawsterau mwyaf o fewn ein cymuned ar hyn o bryd [yw bod] gostyngiad mewn gwasanaethau iechyd. Mae llu o restrau aros. Mae hyn ar gyfer oedolion [ac] ar gyfer plant. […] Mae llawer o'n plant yn byw mewn tai anhrefnus trawmatig iawn lle mae angen cefnogaeth, a ni yw'r hafan. (Athro Ysgol Gynradd YH)

Mae'r ymdeimlad o gymuned o fewn yn yr ysgol yn cael ei gryfhau ymhellach gan ei chynllun ymddygiad, sy'n rhagweithiol yn helpu dysgwyr i oresgyn eu gwahaniaethau ac i gefnogi ei gilydd:

> Ein prif gynllun ymddygiad yw cylchoedd adferol, siarad am wrthdaro a datrys sefyllfaoedd gyda'n gilydd. Rydym yn gweithio mewn grwpiau her, sy'n grwpiau gallu cymysg drwy'r ysgol, ar gyfer rhai gweithgareddau, lle mae gan bawb rôl i'w chwarae. Ac rydyn ni'n dysgu sgiliau i'r plant gyd-dynnu

---

[73] Mae gwerthoedd yr ysgol yn cael eu nodi a'u grwpio fel a ganlyn: Ymddiriedaeth, Gonestrwydd, Hunanreolaeth ac Amynedd; Heddwch, Gobaith a Chyfrifoldeb; Cariad, Tosturi a Charedigrwydd; Balchder, Positifrwydd, Hyder a Hunan-Gred; Dewrder a Phenderfyniad; Parch, Goddefgarwch, Ystyriaeth a Chydraddoldeb. Gwefan Ysgol Gynradd YH, Cyrchwyd 19 Ionawr 2024.

[74] Gwefan Ysgol Gynradd YH, Cyrchwyd 19 Ionawr 2024.

[75] Paws b Curriculum (ages 7 - 11) - Mindfulness in Schools Project, https://mindfulnessinschools.org/teach-paws-b/paws-b-curriculum/, Cyrchwyd 20 May 2024

> mewn grŵp [...] Nid oes cwricwlwm heddwch o reidrwydd, ond cânt eu dysgu sut i ddatrys eu hanghytundebau eu hunain. (Athro Ysgol Gynradd YH)

Mae addysgu a datblygu'r sgiliau i lywio perthnasoedd rhyngbersonol yn agwedd bwysig ar addysg heddwch, a dywedodd yr athro pa mor dda mae hyn yn cyd-fynd â'r dull newydd o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a llesiant yn y cwricwlwm newydd:

> Rwy'n credu o fewn ACRh a llesiant, mae'n edrych ar sgiliau gwrthdaro a chyfeillgarwch, ar sut mae plant yn rhyngweithio â'i gilydd. Felly gallwch weld yr elfennau heddwch os edrychwch chi, mae cysylltiadau diriaethol. Does dim rhaid i chi orfodi pethau, mae'r addysg heddwch yn ffitio'n eithaf braf ar y top. (Athro Ysgol Gynradd YH)

Gallai harneisio a hyrwyddo'r ddealltwriaeth hon o Gynllun Ysgolion Heddwch Cymru a'i fframwaith, a'i gweithredu, fod yn ysgogiad pwerus ar gyfer addysg heddwch yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn mynd ati i ymgysylltu'n weithredol â'i chymuned leol ehangach ac mae'n ymwybodol iawn o botensial agwedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned.[76] Mae ystyriaethau heddwch yn y gymuned yn ffurfio rhan o weithgareddau'r ysgol, gyda gwerthfawrogiad o bwysigrwydd addysgu am amrywiaeth, goddefgarwch a derbyn:

> Rydym yn ysgol yn y cymoedd gyda thai teras. Rydym yn cael ein gwasgu yn y canol. Ac os edrychwch chi ar heddwch ac edrych ar yr elfennau ynddo, mae'r heddwch hwnnw o fewn y gymuned a derbyn a goddefgarwch yn wirioneddol bwysig. Ac nid ydym yn ardal amrywiol iawn, ac oni bai ein bod yn dysgu plant am amrywiaeth ac ymwybyddiaeth a goddefgarwch a derbyn a chroesawu popeth, nid ydynt yn mynd i gael unrhyw wybodaeth. Bydd yna farn gul iawn. […] Os nad ydyn ni'n cyflwyno plant i syniadau eraill ac yn siarad am wahanol bethau, yna o ble maen nhw'n mynd i'w gael?  (Athro Ysgol Gynradd YH)

Cydnabu'r athro yr anawsterau posibl a allai godi o'r dull hwn, o ystyried rhagfarnau dwfn a chynnydd symudiadau gwleidyddol asgell dde eithafol yn yr ardal ehangach. Nodwyd bod yr ysgol wedi gweithio'n ofalus i gael rhieni'n gefnogol, a bod y model wedi bod yn llwyddiant. Gan ddisgrifio eu hagwedd a'u hymagwedd at addysg, nododd yr athro eu diddordeb hir mewn materion cymdeithasol ac ymgyrchoedd a'u cymhelliant i ddarparu "golwg fyd-eang i blant o'r hyn sy'n digwydd" a'r cyfle i ddatblygu eu llais a'u hyder mewn perthynas â'r materion hyn (Athro Cynradd YH). Gan fyfyrio ar sut mae ysgolion yn addysgu ac yn codi ymwybyddiaeth o faterion cyfiawnder cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol, nododd yr athro yr angen i holi pam y dylid dysgu'r pynciau hyn, er mwyn symud y tu hwnt i ymgysylltiad a allai fod yn arwynebol:

[76] Ysgolion Bro, Llywodraeth Cymruhttps://www.llyw.cymru/ysgolion-bro-html, cyrchwyd 12 Ionawr 2024

> Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn edrych ar Black Lives Matter, [maen nhw] yn edrych ar Pride. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, wyddoch chi, yn edrych ar geisio dathlu gwyliau gwahanol. Ond mae'n ymwneud â deall pam ein bod yn gwneud hynny? Ac rwy'n credu ei fod yn ymwneud â'n bod ni eisiau heddwch o fewn ein cymunedau. Rydym am i blant fod mewn heddwch â phwy ydyn nhw, a derbyn eu hunain ac eraill. Fe wyddoch chi, mae'n rhan o bedwar diben y cwricwlwm. [...] dinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn iach ac yn hyderus. Fe wyddoch chi, i wneud hynny, mae angen eu haddysgu, nid yw'n digwydd ar hap. (Athro Ysgol Gynradd YH)

Bydd ymchwilio i pam mae cyfiawnder cymdeithasol yn bwysig yn dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr o faterion ac yn eu galluogi i gydnabod a chyflawni eu rôl fel dinasyddion. Mae cyfrannu at heddwch o fewn cymunedau, a'i gynnal, yn llinyn canolog addysg heddwch, ac mae'n hynod berthnasol i gymdeithasau cyfoes. O fewn y cwricwlwm i Gymru, gallai'r ymgysylltiad hwn gyfrannu'n bwrpasol at ddysgwyr yn datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth gynhwysol o gynefin.[77] Byddai hyn yn cyfrannu at

> Meithrin ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles eu hunain, [a] meithrin dealltwriaeth o hunaniaeth pobl eraill a chreu cysylltiadau â phobl, lleoedd a hanes mewn mannau eraill yng Nghymru a ledled y byd. [...] [Mae] hyder yn eu hunaniaeth [eu hunain] yn helpu dysgwyr i werthfawrogi'r cyfraniad y gallan nhw ac eraill ei wneud yn eu cymunedau ac i ddatblygu ac archwilio eu hymatebion i faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang.[78]

Yn ogystal â hyn, mae heddwch mewnol, derbyn yr hunan ac eraill yn gyflyrau pwerus sy'n dod â manteision i unigolion, yn ogystal â'u perthnasoedd.

Roedd yn glir yn y cyfweliad hwn fod gan yr ysgol ddealltwriaeth ddofn o'i chymuned ac ymrwymiad cryf i gyfrannu'n gadarnhaol i'r gymuned honno. Egwyddorion addysg heddwch yw un ffactor yn y ffordd y mae'n cyflawni hyn. Gall pwyslais polisi diweddar y llywodraeth ar ysgolion bro ddarparu trywydd newydd i'w ddefnyddio i ddatblygu addysg heddwch. Yn gysylltiedig â hyn, gall casglu a rhannu perthnasedd dulliau addysg heddwch i themâu trawsbynciol, yn cynnwys cynefin fod yn ffordd bwerus i gyfleu ethos 'ysgol gyfan' y fframwaith ac i bwysleisio'r cyfraniad ehangach i gymunedau cydlynol a heddychlon.

## Addysg Uwchradd- Cymwysterau Gwneud-i-Gymru

Mae gwaith yn parhau gan Cymwysterau Cymru a CBAC i ddiweddaru cymwysterau i fod yn briodol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd llawer o'r cyrsiau TGAU diwygiedig yn cael eu dysgu o fis Medi 2025, gyda rhagor o gyrsiau TGAU ar gael yn 2026, a'r gyfres lawn o gymwysterau 14-16 - yn cynnwys yr hyn sy'n cymryd lle'r Dystysgrif Her Sgiliau, y Gyfres Sgiliau, a'r TAG Alwedigaethol newydd - ar gael o fis Medi 2027.

---

[77] Mae Cynefin yn cael ei ddiffinio yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru fel: Lle rydym yn teimlo'n perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r tirlun o'n cwmpas yn gyfarwydd ac mae'r synau a'r golygfeydd yn gysur ac yn adnabyddadwy. Er ei fod yn cael ei gyfieithu'n aml fel 'cynefin', nid lle mewn ystyr ffisegol neu ddaearyddol yn unig yw cynefin: dyma'r lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi siapio ac yn parhau i siapio'r gymuned sy'n byw ynddo.

[78] Canllaw Cwricwlwm i Gymru, Dylunio eich Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru, https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/

Yn arbennig o berthnasol i addysg heddwch, mae cymhwyster TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2025. Bydd Cymwysterau Cymru yn adrodd yn hwyr yn 2024 a fydd y cymhwyster yn cymryd lle'r cymwysterau TGAU presennol yn y gyfraith, cymdeithaseg a dinasyddiaeth.[79] Cyhoeddwyd meini prawf cymeradwyo (gofynion dylunio) y cymwysterau yn haf 2023, yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr.[80] Mae'r meini prawf yn amlinellu y dylai'r cymhwyster:

- ddatblygu dealltwriaeth o sut i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus a chyfrifol yng Nghymru a'r byd
- datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r byd ac o bobl eraill a'u gwerthoedd
- ystyried materion cymdeithasol cyfoes, ac archwilio hunaniaeth, hawliau a democratiaeth
- archwilio materion cymdeithasol ac ystyried sut i ymgysylltu a chymryd rhan weithredol mewn gweithredu cymdeithasol
- gwerthfawrogi natur gymhleth, pliwralistig ac amrywiol cymdeithas drwy ddeall hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, a sut mae'r materion hyn yn siapio pobl, lleoedd a chymuned.
- myfyrio ar ddylanwad llywodraethu ar bobl, lleoedd a chymuned
- archwilio'r thema drawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, yn cynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig.[81]

Mae'r cwmpas hwn yn darparu'r cyfle posibl ar gyfer ystyried heddwch - ac agweddau o addysg heddwch - o fewn y cwrs ynghyd ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy, dinasyddiaeth fyd-eang ac addysg hawliau dynol. Mae ymchwiliad pellach wedi datgelu bod y dyluniad cychwynnol a gynigwyd ar gyfer y cymhwyster Astudiaethau Cymdeithasol, a gyhoeddwyd yn hydref 2022 fel rhan o'r broses ymgynghori 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', wedi crybwyll heddwch yn benodol yn ei amlinelliad o themâu awgrymedig y cwrs: Gwrthdaro cymdeithasol a heddwch; Democratiaeth, Cydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd, Diogelu'r amgylchedd a chynaladwyedd; Technoleg a'i ddylanwad ar gymdeithas.[82]

wedi'i lywio gan drylwyredd academaidd ac annibyniaeth. Mae ymchwilwyr sy'n ymweld ag ysgolion i gyflwyno gweithdai a gwersi hefyd wedi'u cynorthwyo i ddatblygu adnoddau ac allbynnau priodol yn cynnwys blogiau a phodlediadau, sy'n berthnasol i gynulleidfa ehangach nad yw'n arbenigol. Mae'r dull gweithredu PRIF@School, sy'n defnyddio arbenigedd ymchwilwyr ac yn darparu lle ar gyfer deialog gydag ymarferwyr addysgol yn ddatblygiad arloesol yn yr ymdrech i greu cymdeithasau mwy heddychlon. Yn hytrach na dyblygu mentrau addysg heddwch, mae'n darparu cynnig unigryw sydd o fudd i ymchwilwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd.

Mae datblygu rhwydwaith Academi Heddwch ar gyfer ymchwilwyr heddwch, a'r cysylltiad presennol â'r Cynllun Ysgolion Heddwch yn gyfle i archwilio model PRIF@School i Gymru. Byddai'r ymchwilwyr heddwch yn adnodd gwerthfawr i ymarferwyr addysgol fanteisio arno i gynorthwyo eu hymarfer, a gallai hefyd gyfrannu at agenda cenhadaeth ddinesig addysg uwch. Byddai angen adnoddau i gefnogi ei weithgareddau, ond gallai ddod â llawer o fanteision a chryfhau perthnasoedd yn y gymuned addysg heddwch ac ymchwil. Byddai unrhyw weithgaredd tebyg yng Nghymru yn gofyn am hwylusydd cyfnewid gwybodaeth gyfryngol i sicrhau bod yr ysgolion yn derbyn cyngor a chefnogaeth briodol, a bod ymchwilwyr yn deall gofynion ymarferwyr ysgol. Gallai'r Academi Heddwch, gan weithio gyda'r prosiect Ysgolion Heddwch, fod mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r rôl hon.

Mae potensial i'r sector addysg uwch atgyfnerthu ei gyfraniad at ddinasyddiaeth fyd-eang a chyfrannu at gefnogi cymunedau cydlynol a chynhwysol yn rhyngwladol, yn ogystal ag yn lleol. Mae symudedd myfyrwyr wedi cynyddu, ac mae dysgwyr o fewn sector addysg uwch Cymru yn cymryd eu profiadau gyda nhw pan fyddant yn graddio. Mae yna waith ymchwil rhagorol hefyd i adeiladu arno - er enghraifft dau brosiect ar raddfa fawr a ariennir gan Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang UKRI sy'n cynnwys ymchwilwyr o brifysgolion Cymru. Mae'r rhwydwaith Creu Man Diogelach, dan arweiniad Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth, wedi dyfarnu cyllid i chwech ar hugain o brosiectau ymchwil ar draws y byd sy'n archwilio amddiffyniad sifil di-arf a hunan-amddiffyn mewn cymdeithasau sy'n profi gwrthdaro treisgar.[116] Mae llawer o'r prosiectau'n cefnogi gwaith sefydliadau llawr gwlad sy'n ymwneud ag eiriolaeth ac adeiladu gallu, a dysgu gan y cymunedau yr effeithir arnynt, gan fynd ati i gefnogi dysgu gydol oes anffurfiol i hyrwyddo lleihau trais. Mae'r rhwydwaith Addysg, Cyfiawnder a Chof (ACaCh) yn cynnwys ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd, ac mae'n rhwydwaith cydweithredol, rhyngwladol o ymchwilwyr, addysgwyr a sefydliadau cymdeithas sifil sydd wedi ymrwymo i ffyrdd creadigol o addysgu a dysgu am y gorffennol treisgar a'r anghyfiawnderau er mwyn adeiladu diwylliant di-drais ac o heddwch, fel y rhagwelir yn nharged Nod Datblygu Cynaliadwy 4.7.[117] Mae'n comisiynu ymchwil i ddatblygu a deall arferion creadigol ar gyfer addysgu a dysgu am y gorffennol treisgar, gan ganolbwyntio ar ymchwil dan arweiniad ymchwilwyr gyrfa gynnar ac ymchwilwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

[116] Creu Man Diogelach, https://creating-safer-space.com/, cyrchwyd 1 Mai 2024
[117] ACaCh, https://edjam.network/, cyrchwyd 1 Mai 2024

Mae gan sector addysg uwch Cymru agwedd fyd-eang - mae ganddo enw da a brand rhyngwladol cryf, a chysylltiadau da ar draws y byd. Gan weithio gyda phartneriaid yn y sector i gychwyn trafodaeth am y potensial ar gyfer cynnig addysg heddwch ac astudiaethau heddwch neilltuol, gallai Academi Heddwch Cymru gyfrannu at gryfhau enw da Cymru ymhellach fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, yn unol â blaenoriaethau Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.[118]

## Dysgu Gydol Oes- Addysg Oedolion ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol

Mae gan addysg oedolion rôl bwysig wrth helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau ac ymddygiadau i'w paratoi'n well i ddelio â heriau cymhleth ac mae ganddi'r gallu i gefnogi dysgu ar gyfer profiadau trawsnewidiol i unigolion, cymuned a chymdeithas. Dadleuwyd yn flaenorol y dylai "addysg heddwch fod yn rhan annatod o addysg oedolion. Mae addysgwyr sy'n oedolion mewn sefyllfa allweddol i allu rhoi gwaith addysgol dros heddwch ar waith."[119]

Mae gan addysg oedolion draddodiad hir o addysgu a dysgu ar gyfer meddwl beirniadol a myfyrio, ledled y byd mae wedi mynd i'r afael â materion cymdeithasol-ddiwylliannol, gwleidyddol ac economaidd ar gyfer newid unigol, cyfunol a chymdeithasol.[120] Mae addysg heddwch, ac addysg dros heddwch, i oedolion, wedi cael ei arwain i raddau helaeth gan sefydliadau y tu allan i sefydliadau addysg ffurfiol. Yn eu pennod, 'Peace-Building and Conflict Resolution Education' yn *The Handbook Of Adult And Continuing Education* (argraffiad 2020), mae Robin Neustaeter a Jessica Senehi yn myfyrio fel a ganlyn:

> Yn yr Unol Daleithiau a ledled y byd, mae mudiadau sy'n mynd i'r afael â newid cymdeithasol di-drais cadarnhaol er mwyn sicrhau heddwch a nodweddir gan gyfiawnder hiliol ac economaidd a chydraddoldeb rhywedd wedi dibynnu ar ddatblygu prosesau addysgol y tu allan i sefydliadau ffurfiol. Mae mudiadau cymdeithasol p'un a yw'n gymuned yn trefnu neu'n weithredu ar y cyd - yn safleoedd pwysig i addysg anffurfiol oedolion, yn aml yn cynnal yn groes i addysg ffurfiol, a all bwysleisio sgiliau neu gymwyseddau gwahanol. Mae gwaith creu heddwch a chyfiawnder cymdeithasol yn ceisio diffinio gweledigaeth o heddwch a chyfiawnder cymdeithasol, datblygu strategaethau ar gyfer cyfleoedd cymdeithasol, a defnyddio dulliau addysgu sy'n rhoi egwyddorion y maent yn eu harddel ar waith.[121]

Mae natur anffurfiol, llawr gwlad llawer o addysg heddwch o fewn dysgu gydol oes yn ei gwneud hi'n anodd ei adolygu. Mae ymchwil desg yn awgrymu bod y mentrau sydd wedi'u dogfennu, eu hadrodd a'u hastudio orau ym maes addysg heddwch yn canolbwyntio ar ddysgwyr ifanc mewn cymdeithasau yn dilyn gwrthdaro

---

[118]Strategaeth Ryngwladol Cymru, Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru-html, cyrchwyd 1 Mai 2024

[119] Helena Kekkonon, 'Peace Education Is Integral to Adult Education', *Convergence: An International Journal of Adult Education*, v14 n4 t 53-58 1981 t 56

[120] Gweler John D. Holst a Stephen D. Brookfield *Radicalizing Learning: Adult Education for a Just World*, Wiley, 2010

[121] Robin Neustaeter a Jessica Senehi, 'Peace-Building and Conflict Resolution Education', *The Handbook Of Adult And Continuing Education*, Argraffiad 2020, gol Tonette S. Rocco, M Cecil Smith, Robert C. Mizzi, Lisa R. Merriweather, a Joshua D. Hawley. 2021. Pp330-338, p.333

neu gymdeithasau yr effeithir arnynt gan wrthdaro. Mae'r rhain yn astudiaethau achos manwl o raglenni byd-eang dan arweiniad UNICEF, megis y rhaglen Dysgu dros Heddwch, a weithredwyd mewn 14 gwlad – Burundi, Chad, Côte d'Ivoire, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, Ethiopia, Liberia, Myanmar, Sierra Leone, Somalia, De Swdan, Gwladwriaeth Palesteina, Uganda, Pacistan ac Yemen – ac a gynorthwyir gan y Llywodraethau partner ym mhob gwlad, UNICEF a Llywodraeth yr Iseldiroedd.[122] Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i weithio drwy'r system addysg i gryfhau cydlyniant a gwytnwch cymdeithasol. Er bod y ffocws yn bennaf ar blant a phobl ifanc, roedd oedolion yn cymryd rhan mewn llawer o'r rhaglenni, o ran torri'r berthynas gylchol rhwng achosion gwrthdaro treisgar a dechrau gwrthdaro, nod y prosiectau *Dysgu dros Heddwch* oedd cryfhau'r cysylltiadau rhwng dinasyddion sy'n gweithio ar wahanol lefelau, o ddiwygio'r cwricwlwm i ddarparu cyfleoedd addysgol anffurfiol ar gyfer plant ac ieuenctid ar y cyrion, a'u rhieni.[123] Mae rhai gwersi i'w cario o raglenni a weithredwyd mewn cymdeithasau a chymunedau yn dilyn gwrthdaro a chymunedau sy'n profi gwrthdaro a thrais ar hyn o bryd, i gymdeithasau eraill, gan gynnwys pwysigrwydd dull 'cydgyfeiriol' o greu heddwch – ymdrechion sy'n cryfhau cydlyniant fertigol (trwy bolisi a datblygiad sefydliadol); cydlyniant cymdeithasol llorweddol (trwy ymyriadau sy'n meithrin perthnasoedd adeiladol o fewn cymunedau ac ymhlith grwpiau cymunedol); a galluoedd unigol (gwybodaeth, agweddau a sgiliau ar gyfer heddwch) plant, ieuenctid a gofalwyr.[124]

Wrth gwrs, mae llawer o enghreifftiau ledled byd o sefydliadau cymdeithas sifil sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer hwyluso deialog ynghylch materion cymdeithasol, gan gynnwys heddwch. Mae sefydliadau heddwch ledled Ewrop yn darparu cyfleoedd ymgysylltu cymunedol, drwy raglenni digwyddiadau, ac maent yn darparu lle sydd gwir ei angen ar gyfer deialog fyfyriol.  Mae gan y cenhedloedd Nordig draddodiad cryf o hyrwyddo heddwch, hawliau dynol, deialog a chymod. Cyflwynir hyn gan nifer o wahanol sefydliadau, yn cynnwys Canolfan Nansen dros Heddwch a Deialog yn Norwy, un o saith canolfan heddwch a hawliau dynol a ariennir gan weinyddiaeth addysg llywodraeth Norwy. Mae'r ganolfan yn datblygu ac yn cynnal cyrsiau yn seiliedig ar egwyddorion a dulliau deialogaidd, dadansoddi gwrthdaro, a sgiliau ymarferol wrth hwyluso deialog.[125] Mae gan Sefydliad Addysg Heddwch y Ffindir (Rauhankasvatusinstituutti RKI ry) bartneriaeth ag UNESCO, ac mae'n darparu hyfforddiant a phrosiectau ar gynyddu tegwch, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth, gan ymgysylltu addysgwyr mewn lleoliadau addysgol ffurfiol ac anffurfiol. [126] Mae'r Fforwm Rhyng-ddiwylliannol Ewropeaidd wedi cyhoeddi canllaw wedi'i lywio gan dystiolaeth i fethodolegau ar gyfer prif ffrydio addysg heddwch mewn addysg oedolion. Mae'r adroddiad yn cynnig mai nod y dull hwn yw

> prif ffrydio heddwch o fewn unigolion, mewn rhyngweithiadau rhyngbersonol a rhyng-grŵp ac o fewn cyd-destun byd cymhleth. Mae'n ymwneud â chydnabod bod addysgu pobl am heddwch a

[122]UNICEF, *Peacebuilding, Education and Advocacy Final Global Report,* 2016 https://www.unicef.org/media/96556/file/UNICEF-PBEA-Final-Report.pdf
[123] Ibid, t 17
[124] Ibid, t 25
[125] Canolfan Nansen dros Heddwch a Deialog https://peace.no/, cyrchwyd 27 Mai 2024
[126] Sefydliad Addysg Heddwch y Ffindir (Rauhankasvatusinstituutti RKI ry), https://rauhankasvatus.fi/en/about-us/ cyrchwyd 27 Mai 2024

> thuag at heddwch yn broses sy'n gysylltiedig â'n rhyngweithio a'n gweithgareddau o ddydd i ddydd. […] [Mae'n] offeryn ar gyfer gwneud addysg heddwch yn gyffredin, yn normal ac yn rhywbeth sy'n cael ei dderbyn yn eang mewn addysg er mwyn meithrin heddwch ar lefel unigol, cymdeithasol ac amgylcheddol.[127]

Mae'r canllaw yn edrych yn bennaf ar sut mae angen i sefydliadau sy'n gweithio i hyrwyddo addysg heddwch o fewn addysg oedolion brif ffrydio'r dull yn gyntaf drwy gyfathrebu gweladwy yn fewnol o fewn y sefydliad a'i staff a'i gontractwyr, ac yn allanol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'n gwneud defnydd cadarn o'r 'dull ysgol gyfan' sy'n cael ei argymell ar gyfer ymgorffori addysg heddwch mewn lleoliadau addysg ffurfiol, ac yn hyrwyddo datblygiad cymhwysedd heddwch ledled y sefydliad, gan fod angen arwain trwy esiampl.

Y trosolwg mwyaf datblygedig o addysg heddwch mewn addysg oedolion a geir yn yr ymchwil desg yw pennod mewn casgliad o draethodau ar addysg oedolion yng Nghanada. Mae Robin Neustaeter yn amlinellu sut mae addysg oedolion a dysgu yng Nghanada yn ystyried addysg heddwch yn "destun ysbeidiol" ers amser maith, ond mai "anaml y caiff ei alw'n addysg heddwch yn benodol", a bod y pwyslais cryf ar gyfiawnder cymdeithasol yn addysg oedolion Canada yn awgrymu "arfer addysg heddwch achlysurol a chuddiedig".[128] Mae ei hadolygiad yn dweud bod

> Addysg anffurfiol am heddwch yn canolbwyntio ar bynciau amrywiol yn cynnwys rheoli neu ddatrys neu drawsnewid gwrthdaro, cyfiawnder cymdeithasol, cyfiawnder adferol, cyfathrebu di-drais, cydraddoldeb rhywedd, gweithredoedd di-drais, diogelwch dynol, yr amgylchedd, cynaliadwyedd a mwy. Mae busnesau, llywodraeth a gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau cymunedol a chymdeithasau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu am agweddau ar heddwch.[129]

Mae'r trosolwg hefyd yn amlinellu'r twf mewn dysgu datrys gwrthdaro mewn dysgu yn y gweithle, fel ymateb i fynd i'r afael â gwrthdaro yn y gweithle. Mae hyn yn awgrymu potensial o fewn addysg alwedigaethol a hyfforddiant i archwilio agweddau ar addysg heddwch i helpu i fynd i'r afael â materion cyfathrebu, arweinyddiaeth, prosesau gwneud penderfyniadau amrywiol a thrin sgyrsiau anodd, materion sy'n arwyddocaol ac yn berthnasol yn eang i lawer o oedolion yn eu gweithleoedd.[130]

Mae hyn yn dangos cynnig addysg heddwch ôl-orfodol bras a gwasgarog, sydd wedi'i ymgorffori mewn amrywiaeth o bynciau a chyd-destunau. Mae hyn ar yr un pryd yn dangos ehangder posibl cymhwyso addysg heddwch mewn dysgu gydol oes, ac yn cyfeirio at pam y gall fod yn anodd categoreiddio a chynnwys cwricwlwm heddwch penodedig o fewn dysgu anffurfiol. Mae hyn yn awgrymu y gallai eiriolaeth dros

---

[127] Fforwm Rhyng-ddiwylliannol Ewropeaidd, *Mainstreaming Peace Education: Methodologies, Approaches and Visions,* t 51, t 55

[128] Robin Neustaeter, 'Adult and Peace Education and Canada – Learning to Imagine', *Adult Education and Lifelong Learning in Canada: Advancing a Critical Legacy*, 2021 tt 168-177, t 168

[129] Ibid, t.17

[130] Ibid, t 172

addysg heddwch, a chodi proffil y dull o ymdrin â thema ehangach ADCDF fod y ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo perthnasedd addysg heddwch ar draws dysgu gydol oes.

## Addysg Oedolion yng Nghymru

Mae gan addysg oedolion hanes hir yng Nghymru, wedi'i wreiddio mewn cydberchnogaeth, dysgu anffurfiol, a dysgu seiliedig ar waith. Mae map ffordd diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer y system addysg (Mawrth 2023) yn amlinellu chwe amcan i gyflawni'r nod bod "pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, yn cael ei gefnogi i fod yn ddinesydd iach, sy'n ymgysylltu, sy'n fentrus ac sy'n foesegol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.".[131] Mae'r ymrwymiadau o fewn yr amcanion dysgu am oes yn cynnwys datblygu siarter genedlaethol newydd ar gyfer dysgu gydol oes a chynlluniau peilot cwricwlwm dinasyddion. Mae'r pwyslais ar bwysigrwydd llesiant a gwytnwch y dysgwr a'r staff wrth ymrwymo i sicrhau amcan o 'brofiad dysgu cadarnhaol i bawb', yn cadarnhau'r pwysigrwydd o lefydd cefnogol, diogel a chynhwysol i ddysgu, yn rhydd rhag gwahaniaethu a bwlio, ynghyd â chanllaw fframwaith statudol Llywodraeth Cymru wrth sefydlu dull ysgol-gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. [132] Mae yna ymrwymiad hefyd i gefnogi llesiant mewn dysgu i oedolion, gan adeiladu ar waith presennol ac ymateb y llywodraeth i adroddiad 2021 Estyn ar gefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol y dysgwr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, gan gynnwys dysgu i oedolion. Mae'r amcan ar ddysgu yn y gymuned yn pwysleisio natur ddwyochrog y dull hwn, gyda gweledigaeth y bydd sefydliadau yn 'ymgysylltu, integreiddio ac yn cael eu grymuso' gan eu cymunedau. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymagwedd leol, genedlaethol a rhyngwladol o ran cyd-destun y cwricwlwm, ac yn tanlinellu'r pwysigrwydd o ddysgu gydol oes drwy gydnabod swyddogaeth addysg i gefnogi dysgwyr, teuluoedd a chymunedau. O ddiddordeb neilltuol i hyd a lled yr adroddiad hwn yw ymrwymiad y llywodraeth i "weithio gyda'r sector addysg drydyddol, gan gychwyn gyda phrifysgolion, i ddatblygu cynnig a chydnabyddiaeth Cymru gyfan o 'fyfyriwr fel dinesydd'."[133]

Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth hyfforddiant a galwedigaethol trosfwaol, a sicrhau bod gan y Comisiwn dros Addysg ac Ymchwil Trydyddol newydd ddigon o gyfarwyddyd ac adnoddau i yrru'r diwygiadau mewn addysg alwedigaethol yn eu blaenau.[134] O'r un adolygiad argymhellwyd y dylid cynnig rhagor o gyfleoedd i gyfoethogi ar gyfer dysgwyr galwedigaethol yn y grŵp oedran 16-24, gan adlewyrchu'r ymagwedd gyfannol Cwricwlwm i Gymru.[135] Gallai cynnig ESDGC, gan gynnwys addysg heddwch, fod yn werthfawr yn hyn o beth, gan gefnogi cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad y gymuned,

---

[131] *Ein Cenhadaeth Genedlaethol: safonau uchel a dyheadau i bawb*, Llywodraeth Cymru 21 Mawrth 2023; https://www.gov.wales/our-national-mission-high-standards-and-aspirations-all-html cyrchwyd 18 Rhagfyr 2023
[132] ibid; gweler hefyd https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-a-meddyliol.pdf
[133] *Ein Cenhadaeth Genedlaethol: safonau uchel a dyheadau i bawb*, Llywodraeth Cymru 21 Mawrth 2023; https://www.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb-html
[134] Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, *Adolygiad o'r System Sgiliau yng Nghymru: Rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol a pharhaus* 2023 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-11/adolygiad-or-system-sgiliau-yng-nghymru-rhaglenni-addysg-a-hyfforddiant-galwedigaethol-cychwynnol-a-pharhaus-080.pdf
[135] ibid

dinasyddiaeth weithgar a gwella llesiant y dysgwr. Fodd bynnag, o astudiaeth achos fanwl o roi strategaeth 2008 ar gyfer y sector ESDGC Dysgu Oedolion a'r Gymuned yng Nghymru ar waith, gwelwyd

> ystod o nodweddion sy'n cyfrannu at weithredu anghyson ac ad hoc, gan gynnwys anawsterau drwy'r seilwaith Dysgu Oedolion a'r Gymuned; ynysu'r sector; a bwlch rhwng polisi a gweithredu a achosir gan ddiffyg buddsoddi. Nid oedd ESDGC wedi'i gysylltu â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, fel datblygiad cymunedol. Oherwydd hynny, ni lwyddwyd i weithredu'n llawn y synergeddau rhwng theori ac ymarfer Dysgu Oedolion a'r Gymuned ac ESDGC.[136]

Roedd yr argymhellion a wnaed gan yr astudiaeth yn cynnwys cyngor y dylid ymgynghori ag ymarferwyr y sector gwirfoddol ynghylch unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol ar strategaethau addysg, er mwyn iddynt allu rhannu eu harbenigedd, oherwydd "byddai eu mewnbwn a mewnbwn eraill gyda'r profiad perthnasol yn ychwanegu at y perthnasedd a dilysrwydd cynnwys y strategaeth"[137] Mae'r astudiaeth hefyd yn argymell bod parhad ESDGC yn "dibynnu ar ail-ffurfio ac ail-gysyniadu clir, gyda disgrifiadau clir o beth ydyw, beth nad ydyw, a sut all addysgwyr ei yrru ymlaen fel rhan o'u gwaith. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth drwy egluro beth yw'r pwrpas a buddion a disgrifio deilliannau dysgu a'r cwricwlwm a'r addysgeg berthnasol."[138] Mae hwn yn ffactor sydd angen ei ystyried wrth ddatblygu'r cynnig addysg heddwch, ynghyd â chyllido digonol a pharhaus er mwyn gwireddu effeithiau hirdymor.

### Cynllun Peilot Addysg Heddwch Cwricwlwm Dinasyddion

Fel rhan o gynllun peilot Cwricwlwm Dinasyddion Llywodraeth Cymru, cafwyd partneriaeth rhwng Addysg Oedolion Cymru a'r WCIA i ddatblygu rhaglen o Ddysgu Byd-eang sy'n gwneud defnydd o arbenigedd a chymunedau'r ddau sefydliad.[139] Bu i Addysg Oedolion Cymru a Chynllun Ysgolion Heddwch y WCIA gydweithio i greu a pheilota cwrs addysg heddwch ar gyfer addysg ôl-orfodol, a ddatblygwyd yn ystod gaeaf 2022-23, a'i roi ar waith yn ystod hydref 2023. Daeth y weledigaeth ar gyfer y cwrs gan grŵp y Crynwyr yng nghanolbarth Cymru a ddangosodd ddiddordeb mewn addysg heddwch a'r potensial ar gyfer datblygu rhaglen fer.

Prif amcanion y cynllun peilot oedd:

- datblygu a darparu rhaglen Dysgu Byd-eang/Addysg Heddwch ôl-16 o weithgareddau ledled Cymru.
- rhoi'r cyfle i ddysgwyr sy'n oedolion roi mewnbwn a llywio datblygiad, darpariaeth, hyrwyddo a gwerthuso'r cynllun peilot.
- codi ymwybyddiaeth o Ddysgu Byd-eang ar draws y sectorau ôl-16.
- Bod yn gyson â rhai o ddibenion allweddol y Cwricwlwm i Gymru

---

[136] Alyson Jenkins, *Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru - O Bolisi i Addysgeg,* Traethawd Doethuriaeth, Prifysgol Abertawe, 2018 t 2
[137] Ibid, t 284
[138] Ibid
[139] Llywodraeth Cymru, 'Cenedl o Ail Gyfle: Lle nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu' https://www.gov.wales/second-chance-nation-where-its-never-too-late-learn, cyrchwyd 5 Ionawr 2024

- rhoi cyfle i ddatblygu Fframwaith Galluogrwydd Dinesig ar gyfer darparwyr dysgu i oedolion.[140]

Gwerthuswyd y cwrs pan ddaeth i ben ym mis Rhagfyr, gydag adborth gan ddysgwyr a myfyrdodau gan arweinwyr y cwrs, er mwyn gallu dysgu o'r broses ac i ddatblygu'r cwrs ymhellach cyn ei newid yn amgylchedd addysgu ar-lein yn gynnar yn 2024. Yn cynnwys 10 sesiwn tair awr, bu i'r cwrs ystyried dull cyfannol o ystyried heddwch, yn unol â llwybrau Loreta Navarro-Castro a Jasmin Nario-Galace tuag at heddwch, o heddwch mewnol i heddwch byd-eang a phlanedol.[141] Roedd hefyd yn cynnwys dwy sesiwn ar ddulliau o ymdrin â gwrthdaro. Yn ogystal, roedd y cwrs hefyd yn ystyried treftadaeth heddwch Cymru, y syniad o Gymru fel cenedl heddwch, a gwahoddwyd y dysgwyr i feddwl am gamau y gallent eu cymryd, gan danlinellu'r broses weithredol a chyfranogol o adeiladu heddwch.[142]

Roedd ymateb atebion y cyfranogwyr i'r cwrs yn gadarnhaol. Yn ogystal â rhannu sut roedd y cwrs wedi eu helpu i ddeall yr heriau sy'n wynebu cymunedau ledled y byd sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro treisgar yn well, roedd gwerthfawrogiad clir hefyd o'r sesiynau a oedd yn edrych ar agweddau ar berthnasoedd rhyngbersonol a heddwch mewnol. [143] Roedd llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cyfleu pwysigrwydd y cyfleoedd a ddarperir i fyfyrio ar eu hymddygiad eu hunain a'r hyn a gawsant wrth ddysgu sut i ddelio â gwrthdaro ac anghytundebau. Roedd un dysgwr wedi sylweddoli bod yr hyn yr oedd wedi'i ystyried yn "ddull gonest eu hunain, ynddo'i hun, yn wrthdrawiadol ac yn gallu achosi gwrthdaro", a rhoddodd y cwrs gyngor iddynt a ffyrdd o fynd i'r afael â hyn ar ôl blynyddoedd lawer o geisio atebion.[144] Roedd y dysgwyr yn gwerthfawrogi'r rhyngweithio personol yn ystod y sesiynau, ac mae arweinydd y cwrs wedi cydnabod y gellid rhoi mwy o amser i ymarfer sgiliau mwy rhyngbersonol yn y dyfodol. [145] Fodd bynnag, maent hefyd yn ymwybodol y gall rhyngweithio rhyngbersonol ddod â heriau, felly mae angen rhoi sylw i sut y gellid defnyddio gwahaniaethau barn ac ymddygiadau, y gall pobl eu cael yn anodd, yn ddiogel i ddatblygu sgiliau. Amlygodd yr adborth gan ddysgwyr ynghylch ffurf y cwrs bwysigrwydd i gyfranogwyr brofi cymaint o'r cwrs, er mwyn deall yn well yr agweddau cydgysylltiedig o heddwch a'r sgiliau cysylltiedig. Mae hyn wedi ysgogi datblygwyr y cwrs i ystyried creu adnoddau ychwanegol i gynorthwyo'r cwrs, a allai gynnwys darllen pellach, gwybodaeth am fentrau lleol neu genedlaethol, a thaflenni gweithgareddau i gynorthwyo gwaith y tu allan i'r sesiynau.[146]

## Datblygiadau eraill y dyfodol

Mae'r gwerthusiad o'r cwrs yn ystyried a fyddai "modd gwneud mwy o gyswllt gyda'r Cynllun Ysgolion Heddwch a dulliau rhyng-genhedlaeth posib".[147] Byddai ystyriaeth bellach o'r potensial ar gyfer dulliau

[140] WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, 'Cwricwlwm Addysg Heddwch (Oedolion): Gwerthusiad o raglen beilot a gynhaliwyd yn 2023'
[141] Navarro-Castro, L., & Nario-Galace, J. (2019) *Peace education: A pathway to a culture of peace* (3rd ed.), t 20
[142] WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, 'Cwricwlwm Addysg Heddwch (Oedolion): Adolygiad o raglen beilot a gynhaliwyd yn 2023', t 2-3
[143] WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, ibid, t 7
[144] WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, ibid, t 6
[145] WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, ibid, t 8
[146] WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, ibid, t 11, t 12
[147] ibid

rhyng-genhedlaeth tuag ar gyfer addysg heddwch yn ymarfer gwerthfawr. Mae ysgolion yng Nghymru yn archwilio mwy a mwy o weithgareddau sy'n cyd-fynd â buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn amgylcheddau dysgu ysgolion bro, gan ddarparu cyfleoedd i feithrin gallu yn y gymuned leol.[148] Gofynnir cwestiwn tebyg hefyd yn yr adroddiad mewn perthynas ag addysg bellach: "A ellid addasu'r cwrs ychydig a'i gynnal mewn coleg (a allai wedyn anelu at ddod yn Goleg Heddwch, gyda chefnogaeth)?"[149] Mae potensial sylweddol hefyd i gynnal y cwrs o fewn colegau addysg bellach fel addysg gymunedol dysgu oedolion, ac o bosibl o fewn prifysgolion ac addysg bellach fel cwrs byr dewisol i'r rhai sydd wedi cofrestru fel myfyrwyr ar gyrsiau ffurfiol yn seiliedig ar gymwysterau. Gallai'r ddau ddatblygiad hefyd gynnwys cydweithio rhwng sefydliadau ar draws y sectorau addysg gorfodol ac ôl-orfodol, a byddent yn cyfrannu at eu gwaith yn y genhadaeth ddinesig ac wrth ddarparu profiadau dinasyddiaeth i fyfyrwyr a'r cyfle i chwarae rhan fwy gweithredol yn eu cymuned.

Yn ein cyfweliad, gofynnais i ddatblygwyr y cwrs lle hoffent fynd â'r cwrs addysg heddwch nesaf:

> "Symud oddi wrth yr ardal lle’r aethom â fo a'r dysgwyr oedd gyda ni, a oedd â diddordeb o’r dechrau ac yn rhan o'r gymuned honno beth bynnag. Gweld sut y byddai'n ymateb mewn amgylchedd hollol wahanol, mewn ardal hollol wahanol lle nad oes gan bobl y cefndir hwnnw o wybodaeth heddwch oedd gan y Crynwyr. Byddai gallu mynd ag o i rywle lle nad oes gan neb y cefndir hwnnw, a neb y wybodaeth honno, yn ddiddorol iawn, i weld sut mae pobl yn cysylltu ag o." (Cyfweliad gyda datblygwyr y cwrs)

Mae cryn botensial i fframio'r cwrs o fewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dysgu byd-eang a fyddai'n berthnasol iawn o fewn y sector PCET, a gallai gyfrannu at y ddarpariaeth lai ffurfiol ac ychwanegol y mae sefydliadau bellach yn ei darparu i ddysgwyr gyfoethogi eu profiad ac ehangu eu harbenigedd a'u cymwyseddau. Fodd bynnag, wrth fynd â'r cwrs hwn i wahanol leoliadau cymunedol, gall fframio yn y termau hyn fod yn rhwystr i ddealltwriaeth a chyfranogiad - gallai fod lle i bwysleisio agweddau rhyngbersonol y cwrs a sut y gall gyfrannu at reoli gwrthdaro. Mae datblygwyr y cwrs yn ymwybodol o'r heriau a all godi o fynd i'r afael â rhyngweithiadau rhyngbersonol, a'r angen i ystyried diogelwch a niwed posibl mewn sefyllfaoedd o'r fath; byddai technegau cyfryngu cymheiriaid yn ddefnyddiol yn hyn o beth, ac mae gan y Cynllun Ysgolion Heddwch berthynas sefydledig â hyfforddwyr cyfryngu cymheiriaid. Mae'r cwrs ar-lein yn dod â'r potensial i ddatblygu agweddau ar y cwrs yn sesiynau byrrach ar-lein, ac o bosibl rhai adnoddau hunangyfeiriedig.

Gallai fod potensial i ddefnyddio'r gweithgaredd hwn i lywio cyfleoedd cyfoethogi o fewn addysg bellach ac uwch, ac o fewn addysg undebau llafur ac addysg alwedigaethol ehangach, fel rhan o gynnig yn y gweithle i helpu i fynd i'r afael â gwrthdaro yn y gweithle. Efallai y bydd cyfle hefyd i weithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddatblygu hyfforddiant heddwch perthnasol ar gyfer Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae angen ystyried graddadwyedd y cwrs, a'r

---

[148] 'Ysgolion Bro', Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/ysgolion-bro-html, cyrchwyd 10 Chwefror 2024
[149] WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, ibid, t 12

potensial ar gyfer cyflwyno ehangach yn ofalus. Mae gan y cwrs berthnasedd amlwg i ystod o gymunedau dysgwyr ond gall fod wedi'i gyfyngu gan gapasiti hyfforddwyr. Er mwyn ehangu'r rhaglen yn gynaliadwy, i gynyddu ei gwydnwch, a gwneud y mwyaf o'i chyrhaeddiad a'i effaith posibl, mae angen rhagor o gyllid tymor hwy i adeiladu ar y dysgu o'r cynllun peilot, ac i gynyddu mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys buddsoddiad y mae gwir ei angen i ddatblygu gallu ychwanegol i gyflwyno cyrsiau a darparu hyfforddiant i diwtoriaid.

## Casgliad

Mae ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i lesiant dysgwyr a'r cysyniad o ddinasyddiaeth weithgar yn darparu cyfleoedd posibl i addysg heddwch gael ei hintegreiddio'n ehangach ar ystod o wahanol lefelau yn y system addysg yng Nghymru.

Mae papur UNESCO 2024, *Peace education in the 21st century: an essential strategy for lasting peace* yn argymell bod "dulliau ysgol gyfan, ac integreiddio ymyriadau addysgol yn gynhwysfawr a pharhaus i gymdeithas gyfan, trwy ymdrechion dysgu ffurfiol, anffurfiol a gydol oes yn fwy tebygol o esgor ar ganlyniadau mwy trawsnewidiol".[150] Mae'r diwygiadau diweddar o fewn y system addysg yng Nghymru, ynghyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn darparu cyd-destun a allai fod yn dderbyngar i gyflwyno'r dull addysg heddwch, wedi'i wreiddio mewn profiad Cymreig gydag agwedd ryngwladol.

O fewn addysg gynradd ac uwchradd yng Nghymru, mae'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant yn darparu mecanwaith sy'n bodoli eisoes i ystyried cymuned yr ysgol a'r cyfraniad y gallai dull heddychlon ei wneud i gefnogi llesiant cyfannol. Mae'n ymddangos bod darparu cyfleoedd i ystyried y ddeinameg rhwng heddwch mewnol, heddwch rhyngbersonol a heddwch cymdeithasol yn briodol. Mae dealltwriaeth o ddysgwyr gydol oes ar bob lefel fel dinasyddion gweithgar, egwyddorol a gwybodus hefyd yn darparu lle ar gyfer dysgu trawsnewidiol a gweithredu cymdeithasol. Mae gwybodaeth gyfredol o ADCDF ac Addysg Hawliau Dynol yn darparu llwyfan i ddatblygu ymwybyddiaeth o berthnasedd addysg ar gyfer heddwch ac adeiladu ar arferion presennol.

Gyda'i hanes cyfoethog o hyrwyddo heddwch a'i hymrwymiad a gydnabyddir yn rhyngwladol i'r nodau datblygu cynaliadwy, mae gan Gymru gyfle unigryw i feithrin llythrennedd moesegol a meithrin dinasyddion sy'n ymwybodol yn fyd-eang o fewn ei system addysg. Wrth ddefnyddio'r traddodiad hwn, gall Cymru wella cymwyseddau ei ddinasyddion mewn perthynas â heddwch, datrys gwrthdaro, a chydlyniant cymunedol gartref ac yn rhyngwladol. Wrth wneud hynny, gall Cymru ddatblygu ei henw da ymhellach fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, sydd wedi ymrwymo i arfogi cenedlaethau'r dyfodol â'r sgiliau, y wybodaeth a'r empathi i gynnal heddwch.

[150] UNESCO, *Peace education in the 21st century: an essential strategy for lasting peace,* t 19

# Llyfryddiaeth


Mapio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) o fewn Cwricwlwm Prifysgol Bangor, Prifysgol Brifysgol Bangor https://www.bangor.ac.uk/sustainability/curriculum-teams.php.cy

Bar-Tal, D. The Elusive Nature of Peace Education. In G. Salomon & B. Nevo (Eds.), *Peace Education: The Concept, Principles, and Practices Around the World, Taylor and Francis*. 2002. (t 27–36).

Bar-Tal, D., & Rosen, Y. 'Peace Education in Societies Involved in Intractable Conflicts: Direct and Indirect Models'. *Handbook on Peace Education*, Routledge 2009, (tt 21-42)

Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad terfynol https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm

Coleg Penybont, 'Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd'; https://www.bridgend.ac.uk/am-coleg-penybont/ein-gweledigaeth-an-gwerthoedd/?lang=cy

Cod Dinasyddiaeth, Coleg Penybont https://www.bridgend.ac.uk/wp-content/uploads/2023/03/Citizenship-Code-December-23-Cymraeg.pdf

Coleg Penybont, Cynaladwyedd, https://www.bridgend.ac.uk/arweinyddiaeth-ynghylch-cynaliadwyedd-yng-ngholeg-penybont/y-nodau-datblygu-cynaliadwy-ar-nodau-llesiant/?lang=cy

Campaign for Peace Education, What is Peace Education? https://map.peace-ed-campaign.org/what-is-peace-ed/

Targedau ac Amcanion Cynaliadwyedd 2023-24, Prifysgol Metropolitan Caerdydd https://www.cardiffmet.ac.uk/about/sustainability/Documents/Section%201/Targets%20and%20Objectives%202023%2024.pdf

Chapman, S., Ellis, R., Beauchamp, G., Sheriff, L., Stacey, D., Waters-Davies, J., Lewis, A., Jones, C., Griffiths, M., Chapman, Sammy, Wallis, R., Sheen, E., Crick, T., Lewis, H., French, G., & Atherton, S., 'My picture is not in Wales': pupils' perceptions of cynefin (Belonging) in primary school curriculum development in Wales, *Education* 3-13, 51: 8, tt 1214-1228, 2023 https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03004279.2023.2229861

Creating Safer Space, https://creating-safer-space.com/

EdJAM, https://edjam.network/

EduCATe, 'Teachers Are Key: Training Teachers in Nonviolent Conflict Transformation' Position Paper, 2018 https://eu.metododanielenovara.it/wp-content/uploads/2015/10/EduCATe_Position-Paper_EN.pdf

Education Institute Scotland (EIS), Education for Peace Policy https://www.eis.org.uk/policiesandguidance/educationforpeace

EIPLab (Educating Inspiring Peace Laboratory), Good Practices, https://eiplab.eu/good-practices

Estyn, *ADCDF: Cynnydd mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang,* *https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/ESDGC%253A%2520Progress%2520in%2520education%2520for%2520sustainable%2520development%2520and%2520global%2520citizenship%2520-%2520June%25202014.pdf*

European Intercultural Forum, *Mainstreaming Peace Education: Methodologies, Approaches and Visions,* http://unoy.org/wp-content/uploads/Mainstreaming-Peace-Education.pdf

Future Learn, Achieving Sustainable Development, www.futurelearn.com/courses/achieving-sustainable-development

Galtung, J,. Violence, Peace, and Peace Research. *Journal of Peace Research*, 6(3), 1969, tt167–191. https://doi.org/10.1177/002234336900600301

Galtung, J., 'Three realistic approaches to peace: peacekeeping, peacemaking, *peacebuilding', Impact of science on society*, XXV ½ 1976, t 103-115

Guest, M., 'The diversity of the university experience helps students become good citizens' https://wonkhe.com/blogs/the-diversity-of-the-university-experience-helps-students-become-good-citizens/

Holst J. D. and S. D. Brookfield *Radicalizing Learning: Adult Education for a Just World*, Wiley, 2010

HotcoursesAbroad, https://www.hotcoursesabroad.com/study/training-degrees/uk/postgraduate/peace-studies-courses/loc/210/slevel/3/cgory/ea.71-4/sin/ct/page/2/programs.html?#search&catCode=EA.71-4&countryId=210&parentQualId=3&nationCode=210&nationCntryCode=210&studyAbroad=N&studyOnline=N&studyCross=N&studyDomestic=N&studyPartTime=N&startOnlineCampusLater=N&manStdyAbrdFlg=N&parentCatEngName=Social%20Studies%20and%20Communications&childCatEngName=Politics&ldcsCatEngName=Peace%20Studies&fastlane=N

Jenkins, A., Education for Sustainable Development and Global Citizenship Adult and Community Learning in Wales – from Policy to Pedagogy. Traethawd doethuriaeth, Prifysgol Abertawe. 2018 http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa48775

Kekkonon, H. 'Peace Education Is Integral to Adult Education', *Convergence: An International Journal of Adult Education*, v14 n4 t 53-58 1981

Kools, M. a L. Stoll, "What Makes a School a Learning Organisation?", OECD Education Working Papers, No. 137, OECD Publishing, 2016 https://doi.org/10.1787/5jlwm62b3bvh-en

https://maaddysgcenedlaethol.cymru/ma-genedlaethol-mewn-addysg-cymru/

Nansen Center for Peace and Dialogue, https://peace.no/

Navarro-Castro, L., & Nario-Galace, J. Peace education: A pathway to a culture of peace (3rd ed.) 2019 https://www.peace-ed-campaign.org/wp-content/uploads/2019/07/PeaceEducation_3rdEdition_2019.pdf

Neustaeter, R. 'Adult and Peace Education and Canada – Learning to Imagine', *Adult Education and Lifelong Learning in Canada: Advancing a Critical Legacy*, 2021 tt 168-177

Neustaeter R. and J. Senehi, 'Peace-Building and Conflict Resolution Education', *The Handbook Of Adult And Continuing Education*, 2020 Edition, eds Tonette S. Rocco, M Cecil Smith, Robert C. Mizzi, Lisa R. Merriweather, and Joshua D. Hawley. 2021. Tt330-338, t 333

Peace Education Institute (Rauhankasvatusinstituutti RKI ry), https://rauhankasvatus.fi/en/about-us/

Quakers of Britain, Peace at the heart: A relational approach to education in British schools, 2022 https://www.quaker.org.uk/documents/peace-at-the-heart

Cymwysterau Cymru, Deilliannau'r Ymgynghorid fesul Pwnc, Mehefin 2023 https://qualifications.wales/media/knaphlc0/consultation-outcomes-by-subject.pdf

Cymwysterau Cymru, Meini Prawf Cymeradwyo Astudiaethau Cymdeithasol TGAU, 2023 https://qualifications.wales/media/lsqe0irb/gcse-social-studies-approval-criteria.pdf

Cymwysterau Cymru, Cynnig TGAU Astudiaethau Cymdeithasol, 2022 https://haveyoursay.qualifications.wales/18682/widgets/54667/documents/32075

Cymwysterau Cymru, TGAU Gwneud-i-Gymru, https://cymwysterau.cymru/rheoleiddio-a-diwygio/diwygio/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol/gwneud-i-gymru-tgau/

Cymwysterau Cymru, Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16: Adroddiad Penderfyniadau, 2024 https://qualifications.wales/media/3xfbmd0o/the-full-14-16-qualifications-offer-decisions-report.pdf

Radosavljević, N., 'Renewal of education for peace and why it is important?!' Coyote Issue 33, 2023 Council of Europe https://pjp-eu.coe.int/en/web/coyote-magazine/renewal-of-education-for-peace-and-why-is-it-important

Solidar Foundation, *A Sustainable Journey to Peace: Peace Education in The Context Of Global Citizenship Education,* Solidar Foundation, November 2022 https://www.solidar.org/system/downloads/attachments/000/001/648/original/Policy_Paper_Peace_Education_Final_Version.pdf?1671711993

Prifysgol Abertawe, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, https://www.swansea.ac.uk/cy/cynaliadwyedd/strategaeth-a-pholisi/#addysg-ar-gyfer-datblygu-cynaliadwy-rhan-1=is-expanded

Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, https://business.senedd.wales/documents/s126867/Tertiary%20Education%20and%20Research%20Wales%20Bill,%20as%20passed.pdf

UNESCO Recommendation on Education for Peace and Human Rights, International Understanding, Cooperation, Fundamental Freedoms, Global Citizenship and Sustainable Development, ED/REV-1974REC/2023/6, https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000386653

UNESCO, New Understandings of Education's Contributions to Peace UNESCO Technical note, 2022 https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000381530

UNESCO, *Peace education in the 21st century: an essential strategy for lasting peace* https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000388385

UNICEF, *Peacebuilding, Education and Advocacy Final Global Report,* 2016 https://www.unicef.org/media/96556/file/UNICEF-PBEA-Final-Report.pdf

University of Bradford, https://www.bradford.ac.uk/courses/ug/international-relations-politics-security-ba/

Prifysgol De Cymru, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, https://www.southwales.ac.uk/about/sustainability/our-priorities/education-for-sustainable-development/

University of St Andrews, Vertically Integrated Projects, https://www.st-andrews.ac.uk/education/vip/

University of St Andrews, Visualising Peace, https://arts.st-andrews.ac.uk/visualising-war/visualising-peace/

UCHAF: Systemic Upscaling of Peace Education Practices, Collection of Good Practices, 2018 https://eiplab.eu/wp-content/uploads/2019/11/UPPER.IO1_Report-on-the-collection-of-good-practices.pdf

WCIA 'Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru' - Lefelau, Gofynion a Chynnydd' https://padlet.com/ejharries/ysgolion-heddwch-cymru-wales-peace-schools-uct30df9k5o0gmw6/wish/1823894285

WCIA, 'Dod yn Ysgol Heddwch Prosiect Erasmus: Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Rhagfyr 2023' (heb ei chyghoeddi)

WCIA, 'Sut i ddod yn Ysgol Heddwch' Pecyn Cymorth i Ymarferwyr' (heb ei gyhoeddi) Wedi'i ddatblygu fe rhan o'r prosiect Erasmus+ 2020-23

WCIA, Sut i ddod yn Ysgol Heddwch, https://padlet.com/ejharries/ysgolion-heddwch-cymru-wales- peace-schools-uct30df9k5o0gmw6/wish/1823890587

WCIA, Addysg Heddwch wedi'i Fapio i'r Cwricwlwm Newydd, 2022 https://www.wcia.org.uk/wp-content/uploads/2022/05/Peace-Education-mapped-to-the-new-curriculum.pdf

WCIA Cynllun Ysgolion Heddwch, 'Cwricwlwm Addysg Heddwch (Oedolion): Gwerthusiad o raglen beilot a gynhaliwyd yn 2023'

WCIA, Cofnod Prosiect Cymru dros Heddwch 2014-19, https://www.wcia.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Project-Record-Wales-for-Peace-2014-19-Final-Draft-Nov-2019.pdf

Llywodraeth Cymru, 'Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'r safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu (ar gyfer ymgynghori) Cwestiynau Cyffredin', 2017

Llywodraeth Cymru, Ysgolion Bro, https://www.llyw.cymru/ysgolion-bro-html l

Llywodraeth Cymru, Canllaw Cwricwlwm i Gymru, Dylunio eich Cwricwlwm, https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/

Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru, Dylunio eich Cwricwlwm, Themâu Trawsbynciol, Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/

Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru, Dylunio eich Cwricwlwm: y Pedwar Diben https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#curriculum-design-and-the-four-purposes

Canllaw Statudol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Cwricwlwm i Gymru, Llywodraeth Cymru https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/#relationships-and-sexuality-education-(rse):-statutory-guidance

Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru: Crynodeb o Ddeddfwriaeth https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#religion,-values-and-ethics

Llywodraeth Cymru, Dylunio eich Cwricwlwm, Themâu Trawsbynciol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/

Llywodraeth Cymru, Dylunio eich Cwricwlwm, Canllaw Cwricwlwm i Gymru, https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#designing-a-curriculum-in-wales-and-for-wales

Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru: Canllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#canllawiau-ar-grefydd,-gwerthoedd-a-moeseg

Llywodraeth Cymru, *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang Dealltwriaeth Gyffredin i Ysgolion,* https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/addysg-ar-gyfer-

datblygu-cynaliadwy-a-dinasyddiaeth-fyd-eang-dealltwriaeth-gyffredin-ar-gyfer-y-sector-dysgu-oedolion-ar-gymuned.pdf

Llywodraeth Cymru, Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar Gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol, 2021 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-a-meddyliol.pdf

Strategaeth Ryngwladol Cymru, Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru-html

Llywodraeth Cymru, Y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/cynllunio-a-dylunio-dysgu-proffesiynol/

Llywodraeth Cymru, Ein Cenhadaeth Genedlaethol: safonau a dyheadau uchel i bawb, 21 Mawrth 2023; https://www.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb-html

Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, 'Cwricwlwm Dinasyddon: Grymuso dysgwyr sy'n oedolion yng Nghymru', 4 Ionawr 2024. https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-dinasyddion-grymuso-dysgwyr-syn-oedolion-yng-nghymru

Llywodraeth Cymru, 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu', https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/arwain-dysgu-proffesiynol/ysgolion-fel-sefydliadau-sy-n-dysgu/

Llywodraeth Cymru, Crynodeb o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-09/crynodeb-o-ddeddf-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-cymru.pdf

Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru 2023, www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023

www.cperg.org/programmes

www.globalgoals.org/goals/4-quality-education/

www.grainesdepaix.org/en/resources/peace-dictionary/peace-education-unicef-susan-fountain-et-al-1999

www.ideas-forum.org.uk/

www.peace-education.org.uk/home

www.signpostsglobalcitizenship.org/

www.taith.wales/about/what-we-do/

Zwart, D. Peace Education: Making the Case, Quaker Council for European Affairs, 2019, https://www.qcea.org/wp-content/uploads/2019/01/Peace-Education-report.pdf